Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 95/2026

Dyddiad cyhoeddi: 05/11/2026

Adolygiad o estyn yr hawl i bleidleisio a newid cymhwystra i fod yn Aelod o'r Senedd

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-618-8

Adolygiad o estyn yr hawl i bleidleisio a newid cymhwystra i fod yn Aelod o'r Senedd

Awduron: Thinks Insight & Strategy



Adroddiad Ymchwil Llawn: Thinks Insight & Strategy (2026). Adolygiad o estyn yr hawl i bleidleisio a newid cymhwystra i fod yn Aelod o'r Senedd. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR: 95/2026.

Ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Barn yr ymchwilwyr, ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru, yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Emma Wallace
Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Ymchwil.GwasanaethauCyhoeddus@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Geirfa 2

1. Cyflwyniad a chefndir 3

2. Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

3. Methodoleg 5

3.1 REA a chyfweliadau rhanddeiliaid 5

3.2 Cyfweliadau â chyfranogwyr 5

3.3 Cyfyngiadau 7

4.Asesiad Tystiolaeth Cyflym a Chanfyddiadau Rhanddeiliaid 8

4.1 Pobl ifanc 8

4.2 Dinasyddion tramor cymwys 11

4.3 Mandad deuol 16

4.4 Crynodeb o dystiolaeth bresennol a'r bylchau sy'n weddill 17

5. Canfyddiadau Ymchwil Ansoddol 18

5.1 Pobl ifanc 18

5.2 Dinasyddion tramor cymwys 26

5.3 Mandadau deuol 36

6. Canlyniadau 40

6.1 Asesiad cyffredinol o'r diwygiadau 40

6.2 Ymwybyddiaeth o gymhwysedd a dealltwriaeth o gyfranogiad democrataidd 40

6.3 Cyfryngwyr dibynadwy 41

6.4 Effeithiau ehangach ar gyfranogiad a chynrychiolaeth 41

7. Cyfeirnodau 43

8. Atodiad 45

Geirfa

Hawliau ymgeisio

Yr hawl gyfreithiol i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad, yn amodol ar ofynion cymhwysedd.

Ymgeiswyr deuol

Sefyll fel ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd tra'n gwasanaethu fel aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

Mandad deuol

Dal swydd etholedig yn y Senedd ac mewn cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol ar yr un pryd.

Hawl i bleidleisio

Y grŵp o bobl sydd â hawl gyfreithiol i bleidleisio mewn etholiad.

Effeithiolrwydd gwleidyddol

Y syniad sydd gan berson y gall ddeall prosesau gwleidyddol, cymryd rhan ynddynt a dylanwadu arnynt.

Yn ymgysylltu'n wleidyddol

Cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau gwleidyddol neu ddemocrataidd, neu ddilyn y rhain yn agos, megis pleidleisio, ymgyrchu, cysylltu â chynrychiolwyr neu drafod materion gwleidyddol

Dinasyddion tramor cymwys

Dinesydd tramor sy'n bodloni'r gofynion cenedligrwydd, preswylio a statws mewnfudo i bleidleisio mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru.

Asesiad Tystiolaeth Cyflym (REA)

Adolygiad strwythuredig, cyfyngedig o ran amser, o ymchwil a thystiolaeth bresennol.

Cyfryngwyr dibynadwy

Sefydliadau y mae'r cyhoedd yn ymddiried ynddynt i rannu gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth wleidyddol, a gallant gynnwys: sefydliadau cymunedol, darparwyr Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL), sefydliadau ffydd, rhwydweithiau lleol a chyfathrebiadau awdurdodau lleol.

1. Cyflwyniad a chefndir

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Thinks Insight & Strategy i adolygu gweithrediad darpariaethau yn Neddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 sy'n ymwneud â hawliau pleidleisio a chymhwysedd i fod yn aelod o'r Senedd. Mae'r adolygiad yn ystyried ymestyn hawliau pleidleisio i bobl 16 a 17 oed ac i ddinasyddion tramor sy'n bodloni'r meini prawf, ymestyn cymhwysedd i fod yn aelod o'r Senedd i ddinasyddion tramor sy'n bodloni'r meini prawf, a chyfyngiadau ar gynghorwyr sir a chynghorwyr bwrdeistref sirol sy'n gwasanaethu ar yr un pryd fel Aelodau o'r Senedd ('Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020', Senedd Cymru, 2020).

Mae Adran 38 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad y darpariaethau hyn, a chyflwyno'r adroddiad hwnnw gerbron y Senedd. Cyfnod o bum mlynedd yw'r cyfnod adrodd, gan ddechrau gyda'r etholiad cyntaf i'r Senedd a gynhelir ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o fewn y chwe mis dilynol. Mae'r ymchwil hwn yn ffurfio'r adolygiad statudol sy'n ofynnol o dan Adran 38. Nid gwerthusiad o etholiad 2026 yn unig ydyw: mae cyfranogwyr a rhanddeiliaid yn myfyrio ar brofiadau perthnasol ers gweithredu'r ddarpariaeth, gan gynnwys etholiadau 2021 a 2026 a'r pontio rhwng swyddi etholedig ('Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020', Senedd Cymru, 2020, Adran 38).

Roedd y newidiadau i'r trefniadau pleidleisio yn berthnasol i bleidleisiau yn y Senedd a gynhaliwyd ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021. Cynhaliwyd yr etholiad cyffredin cyntaf i'r Senedd o dan yr hawl pleidleisio estynedig ym mis Mai 2021. Yn ddiweddarach, newidiodd deddfwriaeth ar wahân agweddau ar aelodaeth ac etholiadau'r Senedd, gan gynnwys y system etholiadol a ddefnyddiwyd yn 2026 a'r eithriadau i'r cyfyngiadau ar ddal swyddi lleol a swyddi yn y Senedd. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o'r cyd-destun y mae cyfranogwyr yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'r darpariaethau sy'n cael eu hadolygu, ond nid ydynt yr un peth â'r diwygiadau i etholfraint yn 2020 ('Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020', Senedd Cymru, 2020; 'Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024', Senedd Cymru, 2024b; 'Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024', Senedd Cymru, 2024a).

2. Ynglŷn â’r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad o ymestyn hawliau pleidleisio a newidiadau i gymhwysedd ar gyfer aelodaeth o'r Senedd. Mae'n dwyn ynghyd dystiolaeth bresennol, gan gynnwys ymchwil a gyhoeddwyd a data'r Comisiwn Etholiadol, ochr yn ochr â safbwyntiau rhanddeiliaid ac ymchwil ansoddol sylfaenol gyda phobl yr effeithir arnynt gan y diwygiadau.

Mae'r adolygiad yn mynd i'r afael â phedwar amcan:

1. Asesu'r dystiolaeth bresennol ar ganlyniadau'r diwygiadau, gan nodi beth y gellir ei gasglu a ble byddai angen mwy o dystiolaeth.
2. Archwilio ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, camsyniadau ac anghenion gwybodaeth ymhlith pobl y mae'r darpariaethau'n effeithio arnynt.
3. Deall yr effeithiau a adroddwyd ar agweddau, ymddygiadau, cyfranogiad, cynrychiolaeth a hyder mewn prosesau democrataidd.
4. Nodi rhwystrau a ffactorau galluogi cyd-destunol sy'n llunio gweithrediad a phrofiad y diwygiadau.

Mae Pennod 3 yn disgrifio'r fethodoleg ar gyfer yr adolygiad. Mae Pennod 4 yn dwyn ynghyd ymchwil gyhoeddedig, data perthnasol y Comisiwn Etholiadol ac arsylwadau cyd-destunol gan randdeiliaid a gyfwelwyd yn yr astudiaeth hon. Mae'n gwahaniaethu tystiolaeth am drefniadau cyfreithiol a gweinyddol oddi wrth dystiolaeth am ymwybyddiaeth, ymddygiad, ac effeithiau canfyddedig. Mae Pennod 5 yn cyflwyno canfyddiadau gan gyfranogwyr ifanc, y grwpiau hawliau pleidleisio ac ymgeisyddiaeth dinasyddion tramor, a chynghorwyr. Mae Pennod 6 yn dwyn y canfyddiadau hyn ynghyd â'r dystiolaeth gyhoeddedig i ateb cwestiynau'r adolygiad a nodi meysydd i'w hystyried ymhellach.

3. Methodoleg

Mae'r adolygiad hwn yn cyfuno asesiad tystiolaeth cyflym (REA), archwiliad o ddata meintiol sydd ar gael, cyfweliadau â rhanddeiliaid a gwaith maes ansoddol gyda'r cynulleidfaoedd a gwmpesir gan yr adolygiad. Mae gan y llinynnau hyn wahanol ddibenion. Mae tystiolaeth gyhoeddedig a gweinyddol yn sefydlu'r cyd-destun ehangach; mae cyfweliadau â rhanddeiliaid yn darparu safbwyntiau gweithredu; ac mae cyfweliadau â chyfranogwyr yn archwilio profiadau a gwneud penderfyniadau yn fanwl.

3.1 REA a chyfweliadau rhanddeiliaid

3.1.1. Adolygiad o dystiolaeth a ffynonellau meintiol

Archwiliodd yr REA ddeddfwriaeth a dogfennau polisi perthnasol, ystadegau swyddogol, ymchwil a gyhoeddwyd a thystiolaeth arall yn ymwneud â diwygio etholiadol a chyfranogiad democrataidd. Dewiswyd y ffynonellau ar ôl trafod gyda Llywodraeth Cymru. Nododd yr adolygiad y prif ganfyddiadau, y perthnasedd i'r amcanion, cryfderau a chyfyngiadau methodolegol, a'r goblygiadau ar gyfer gwaith maes sylfaenol. Roedd yn asesiad â ffocws ac amser cyfyngedig, yn hytrach nag adolygiad systematig cynhwysfawr.

Mae deunydd meintiol yn cynnwys gwybodaeth gofrestru'r Comisiwn Etholiadol a thystiolaeth barn y cyhoedd ar ôl yr etholiad. Adroddir ar fesurau cofrestru gyda'u poblogaeth a'u cyfnod cyfeirio lle bynnag y cânt eu sefydlu. Mae'r dadansoddiad yn gwahaniaethu rhwng amcangyfrifon gweinyddol, cofrestru a adroddwyd gan ymatebwyr, pleidleisio a adroddwyd ymhlith ymatebwyr cofrestredig a'r nifer swyddogol a bleidleisiodd. Ni chaiff gwahaniaethau rhwng y mesurau hyn eu trin fel newidiadau dros amser nac fel tystiolaeth bod y diwygiadau wedi achosi canlyniad a welwyd.

3.1.2. Cyfweliadau rhanddeiliaid

Cynhaliwyd 10 cyfweliad â rhanddeiliaid i archwilio bylchau gweithredu, cyfathrebu, ymgysylltu a thystiolaeth. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys pobl sy'n gweithio ym maes gweinyddiaeth etholiadol, cyfranogiad ieuenctid, addysg ddemocrataidd a diwygio, a sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau mudol neu leiafrifoedd ethnig. Sampl a ddewiswyd yn bwrpasol oedd hwn, ac a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru i nodi rhanddeiliaid i'w gwahodd i ymchwil. Cynlluniwyd y cyfweliadau i bara tua 30 munud ac fe'u cynhaliwyd o bell. Archwiliodd y trafodaethau beth oedd rhanddeiliaid wedi'i arsylwi drwy eu gwaith, sut yr oeddent wedi cyfleu'r diwygiadau, heriau cyflawni ymarferol a blaenoriaethau ar gyfer ymchwil bellach.

3.2 Cyfweliadau â chyfranogwyr

3.2.1. Grwpiau ymchwil a recriwtio

Cynhaliwyd 58 o gyfweliadau yn ystod yr ymchwil hwn, gan gynnwys 10 cyfweliad â rhanddeiliaid, 6 chyfweliad â chynghorwyr sir neu fwrdeistref sirol, a 42 o gyfweliadau a'r cyhoedd. Roedd yr aelodau o'r cyhoedd a gynhwyswyd yn yr ymchwil hwn yn cynnwys 20 o bobl ifanc rhwng 16 ac 21 oed a 22 o ddinasyddion tramor; roedd 6 ohonynt yn wleidyddol weithgar (disgrifir isod sut y diffiniwyd hyn). Ceir dadansoddiad llawn o'r sampl yn yr atodiad.

Roedd y recriwtio yn chwilio am ystod o brofiadau ar draws oedran, daearyddiaeth, dewisiadau iaith a diddordeb gwleidyddol. Roedd y dull yn cyfuno recriwtio arbenigol am ddim â chyswllt uniongyrchol ac atgyfeiriadau trwy sefydliadau neu gysylltiadau presennol lle bo'n briodol. Recriwtio pwrpasol oedd hwn, gyda'r bwriad o gynnwys profiadau cyferbyniol, yn hytrach na samplu tebygolrwydd.

Cafodd pobl ifanc rhwng 16 ac 21 oed eu cynnwys yn yr ymchwil er mwyn casglu profiadau o ddod yn gymwys i bleidleisio ar wahanol adegau ers cyflwyno'r hawl i bleidleisio yn 16 oed. Roedd yr ystod oedran ehangach yn galluogi'r ymchwil i archwilio profiadau'r rhai sy'n 16 neu 17 oed ar hyn o bryd, yn ogystal â myfyrdodau pobl ifanc hŷn ar eu profiadau cynharach o bleidleisio ac ymgysylltu â gwleidyddiaeth. Fodd bynnag, ni fyddai pob cyfranogwr rhwng 18 ac 21 oed wedi bod yn gymwys i bleidleisio yn 16 neu 17 oed o dan y diwygiadau, ac mae eu profiadau'n cael eu dehongli yn unol â hynny yn yr adroddiad hwn.

Gwahanwyd y grwpiau o ddinasyddion tramor at ddibenion ymchwil. Mae'r grŵp sy'n weithgar yn wleidyddol yn cynnwys cyfranogiad gwleidyddol uniongyrchol cyfredol neu flaenorol, megis aelodaeth o blaid, ymgyrchu neu ystyried sefyll, ac ymgysylltu'n rheolaidd â gwneud penderfyniadau cyhoeddus, er enghraifft trwy ymgynghoriadau neu gyswllt â chynrychiolwyr. Mae'r grŵp hawliau pleidleisio yn cynnwys pobl nad ydynt yn cymryd rhan yn rheolaidd yn y gweithgareddau hyn ond a all barhau i bleidleisio neu ddilyn newyddion gwleidyddol. Nid yw'r label recriwtio yn awgrymu nad ydynt yn bleidleiswyr.

Roedd recriwtio cynghorwyr yn chwilio am gynghorwyr sir a bwrdeistref sirol presennol gyda phrofiad perthnasol. Mae'r chwe chyfweliad yn darparu set fach o safbwyntiau lleol. Nid ydynt yn cynnwys pob math o lwybr gwleidyddol ac ni allant gynrychioli cynghorwyr a wrthododd gymryd rhan yn y prosiect ymchwil hwn na phobl a oedd eisoes wedi rhoi'r gorau i swydd leol.

3.2.2. Gwaith maes a chyfranogiad

Defnyddiodd y dyluniad ansoddol gyfweliadau manwl mewn parau ac unigol. Cymerodd pobl ifanc ran mewn parau cyfeillgarwch neu gyfweliadau unigol; cymerodd dinasyddion tramor ran mewn trafodaethau mewn parau neu unigol a chymerodd y grŵp gwleidyddol gweithredol a chynghorwyr ran mewn cyfweliadau unigol. Cynhaliwyd cyfweliadau dan arweiniad ymchwilwyr o bell. Roedd y dyluniad hefyd yn cynnwys defnyddio Tellet, platfform cyfweliadau a chyfieithu, i alluogi rhai dinasyddion tramor i gymryd rhan mewn iaith ddewisol heblaw Saesneg neu Gymraeg.

Cynlluniwyd trafodaethau mewn parau i bara tua 60 munud, tra bod cyfweliadau unigol â dinasyddion tramor sy'n weithgar yn wleidyddol, yn ogystal â chynghorwyr, wedi'u cynllunio i bara tua 45 munud. Cynlluniwyd cyfweliadau dros y ffôn i bara tua 30 munud.

Roedd canllawiau trafod ar wahân yn ymdrin â phob cynulleidfa gan gadw themâu cyffredin: ymwybyddiaeth a dealltwriaeth; barn am y newidiadau; profiadau o gofrestru, pleidleisio neu ymgeisyddiaeth; effeithiau canfyddedig; a rhwystrau a chefnogaeth. Archwiliodd cwestiynau ddealltwriaeth gychwynnol y cyfranogwyr cyn cyflwyno gwybodaeth am y darpariaethau perthnasol.

Darparwyd gwybodaeth am yr astudiaeth a gwybodaeth am breifatrwydd i'r cyfranogwyr. Roedd cyfranogiad yn wirfoddol a chynlluniwyd yr adrodd i ddiogelu cyfrinachedd. Roedd

cyfranogiad yn y Gymraeg ac opsiynau iaith ychwanegol yn rhan o'r dull. Mae'r adroddiad yn defnyddio dyfyniadau dienw; mae enwau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion a sefydliadau cyfryngau adnabyddadwy wedi'u disodli gan ddisgrifiadau mewn cromfachau lle bo'n berthnasol.

3.3 Cyfyngiadau

Mae'r sampl ansoddol yn fach ac wedi'i recriwtio at ddiben penodol. Mae'n cynnig dyfnder ac amrywiaeth, yn hytrach nag amcangyfrifon o ba mor gyffredin yw pob profiad ledled Cymru. Mae ymadroddion fel ‘rhai cyfranogwyr’ yn cyfeirio at y dystiolaeth o'r cyfweliadau, nid at gyfran fesuredig o'r boblogaeth. Nid yw absenoldeb profiad yn y cyfweliadau hyn yn dangos nad yw'n digwydd mewn mannau eraill.

Gall recriwtio ffafrio pobl sy'n haws cysylltu â nhw, sy'n fwy hyderus yn trafod gwleidyddiaeth neu sy'n fwy cysylltiedig â rhwydweithiau recriwtio. Gall dinasyddion tramor sydd â Saesneg neu Gymraeg cyfyngedig, llai o gysylltiadau sefydledig neu lai o hyder yn rhyngweithio â sefydliadau barhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol er gwaethaf y llwybr iaith ychwanegol.

Mae dinasyddion tramor cymwys yn boblogaeth amrywiol sy'n anodd ei nodi; mae hyn yn golygu efallai na fydd yr ymchwil yn cwmpasu'r ystod lawn o brofiadau, yn enwedig ymhlith y rhai sydd â sgiliau iaith Saesneg neu Gymraeg mwy cyfyngedig, neu sydd â llai o gysylltiadau â sefydliadau cymunedol a rhwydweithiau recriwtio – er bod cyfweliadau wedi'u cynnig yn iaith ddewisol y cyfranogwyr lle bynnag y bu hynny'n bosibl. Felly, dylid dehongli'r canfyddiadau fel tystiolaeth o'r profiadau a gasglwyd yn yr astudiaeth, yn hytrach nag fel rhywbeth sy'n cynrychioli'r holl ddinasyddion tramor cymwys yng Nghymru.

Mae cofnodion cofrestru ac etholiadau blaenorol yn hunangofnodedig ac weithiau'n ansicr. Efallai na fydd cyfranogwyr yn gwahaniaethu rhwng gwahoddiad i gofrestru, cadarnhad cofrestru a cherdyn pleidleisio. Ni wiriodd yr ymchwil gofnodion etholiadol unigolion.

Mae gan y dystiolaeth feintiol y cyfeirir ati yn yr adolygiad hwn gyfyngiadau ar wahân. Nid yw gwybodaeth gofrestru gyhoeddedig yn nodi'r holl grwpiau yr effeithir arnynt ac, ar gyfer etholiad Senedd 2026, nid yw'r data'n gyflawn ar gyfer pob etholaeth. Nid yw cofrestru chwaith yn nodi a aeth unigolyn ymlaen i bleidleisio. Mae rhywfaint o dystiolaeth y Comisiwn Etholiadol ar gofrestru a phleidleisio yn seiliedig ar ymatebion hunangofnodedig i arolygon neu baneli yn hytrach na chofnodion gweinyddol. Gall y mesurau hyn fod yn destun rhagfarn ymateb a dwyn i gof ac ni ddylid eu trin fel rhai sy'n gyfwerth â data cofrestru gweinyddol na chanran swyddogol y pleidleiswyr. Mae gwahanol ffynonellau hefyd yn defnyddio gwahanol fesurau a phoblogaethau, sy'n golygu na ellir cymharu ffigurau'n uniongyrchol bob amser na'u defnyddio i asesu newid dros amser. Ni ellir defnyddio canfyddiadau arolwg ymgeiswyr a chanran Cymru gyfan fel amcangyfrifon ar gyfer pobl 16 a 17 oed na dinasyddion tramor cymwys. Mae'r adolygiad yn nodi lle nad yw tystiolaeth uniongyrchol ar gael o hyd.

4.Asesiad Tystiolaeth Cyflym a Chanfyddiadau Rhanddeiliaid

4.1 Pobl ifanc

4.1.1. Cyfranogiad a gwybodaeth wleidyddol

Nid yw'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod pobl 16 a 17 oed yn llai ymgysylltiedig neu'n llai gwybodus na phleidleiswyr eraill. Canfu 'Camgychwyn: Pleidleisio yn 16 oed yng Nghymru yn Etholiad Senedd Cymru 2021 | Etholiad Senedd Cymru', Griffiths et al., 2025' fod tebygolrwydd hunangofnodedig pobl 16 a 17 oed o bleidleisio yn debyg i bleidleiswyr eraill o dan 55 oed, a'u bod yn dangos lefelau tebyg o wybodaeth am wleidyddiaeth Cymru o'u cymharu â grwpiau oedran eraill. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth hon yn dangos bod gwybodaeth wleidyddol, yn enwedig o ran y system etholiadol a gwleidyddiaeth pleidiau, yn gymharol isel ar draws y grwpiau oedran. Mae hyn yn dynodi her ehangach o ran llythrennedd gwleidyddol, yn hytrach na her sy'n benodol i bobl ifanc sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio ('Camgychwyn: Pleidleisio yn 16 oed yng Nghymru yn Etholiad Senedd Cymru 2021 | Etholiad Senedd Cymru', Griffiths et al., 2025)

Mae arwyddion y gallai pleidleisio yn 16 oed gefnogi patrymau cyfranogiad cynharach, ond nid yw'r effaith hirdymor yng Nghymru wedi'i sefydlu eto. Mae tystiolaeth gymharol yn awgrymu y gall gostwng yr oedran pleidleisio gefnogi cyfranogiad gwleidyddol; mewn rhai cyd-destunau, mae pobl 16 a 17 oed yn cymryd rhan ar raddau uwch na phleidleiswyr tro cyntaf sydd ychydig yn hŷn ('Votes at 16 in Scotland: Political experiences beyond the vote itself', Huebner and Eichhorn, 2020; 'Lowering the voting age to 16 in practice: Processes and outcomes compared', Eichhorn a Bergh, 2021). Mae cyfranogiad yn yr etholiad cyntaf y mae unigolyn yn gymwys i bleidleisio ynddo hefyd wedi'i gysylltu â chyfranogiad dilynol, sy'n awgrymu y gallai pleidleisio ddod yn arferiad ('Lowering the voting age to 16 in practice: Processes and outcomes compared', Eichhorn a Bergh, 2021; 'Extending the Vote to 16', Electoral Reform Society, 2025'). Fodd bynnag, ar hyn o bryd, dim ond cyfnod cymharol fyr ers gweithredu'r newid y mae'r dystiolaeth o Gymru yn ei gwmpasu; felly, nid yw'n bosibl dweud eto a yw pleidleisio yn 16 oed wedi arwain at newidiadau parhaol mewn cyfranogiad wrth i bobl ifanc symud i fod yn oedolion.

4.1.2. Cofrestru a phleidleisio

Ar ddiwrnod etholiad y Senedd yn 2026, amcangyfrifodd y Comisiwn Etholiadol, yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, fod tua 20,896 o etholwyr llywodraeth leol 16 neu 17 oed wedi'u cofrestru i bleidleisio (Comisiwn Etholiadol, 2026). Mae'r ffigur hwn yn cwmpasu pob etholaeth ac eithrio Pontypridd Cynon Merthyr. Nid oedd data ar gael ar gyfer yr etholaeth hon am nifer y bobl ifanc 16 ac 17 oed a oedd wedi'u cofrestru i bleidleisio. Felly, nid yw'r ffigur o 20,896 yn cynrychioli cyfanswm nifer y bobl ifanc 16 ac 17 oed sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio ledled Cymru a dylid ei ddehongli'n ofalus o ystyried pryderon ehangach ynghlych ansawdd data 2026. Amcangyfrifir bod poblogaeth o 74,980 o bobl 16 a 17 oed yng Nghymru yng nghanol 2025. Fodd bynnag, mae hyn yn cynrychioli cyfanswm yr amcangyfrif o'r boblogaeth yn y grŵp oedran hwn, yn hytrach na'r nifer sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio, gan efallai na fydd rhai pobl 16 a 17 oed yn bodloni'r gofynion cymhwysedd perthnasol. Yn ogystal, nid yw'n angenrheidiol bod pob un sy'n gymwys wedi cofrestru. Yn 2021, roedd 32,121 o etholwyr llywodraeth leol rhwng 16 a 17 oed wedi

cofrestru i bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad, gyda data ar gael ar gyfer pob etholaeth ('Adroddiad ar etholiadau mis Mai 2021 yng Nghymru', Y Comisiwn Etholiadol, 2021). Yr amcangyfrif poblogaeth cyfatebol ar gyfer canol y flwyddyn 2021 ar gyfer pobl 16 a 17 oed oedd 69,552. Ni ddylid cymharu ffigurau cofrestru 2021 a 2026 fel mesur o newid dros amser, gan nad yw data 2026 yn cwmpasu pob etholaeth a bod pryderon ehangach ynghylch ansawdd y data, ac oherwydd cyfyngiadau cymharu etholwyr cofrestredig ag amcangyfrifon o gyfanswm y boblogaeth.

Dylid dehongli ffigurau cofrestru 2026 yn ofalus, gan fod ansicrwydd ynghylch cywirdeb yr amcangyfrifon ar lefel etholaeth. Mae'r ffigurau'n deillio o ddata a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, a gall fod cyfyngiadau yn gysylltiedig â sut y caiff y ffigurau eu hadrodd a'u cyfrifo ar lefel etholaeth gan ddefnyddio data awdurdodau lleol. Felly, ni ddylid defnyddio'r ffigurau ar hyn o bryd i lunio casgliadau ynghylch newidiadau mewn cofrestru dros amser.

Mae data o arolwg ar wahân, a gynhaliwyd ar ôl yr etholiad, yn cynnig mewnwelediad pellach i gofrestru ymhlith pleidleiswyr iau. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried hyn fel amcangyfrif o lefelau cofrestru ymhlith yr holl bobl ifanc yng Nghymru. Mewn arolwg panel gan YouGov, a gynhaliwyd ar ran y Comisiwn Etholiadol yn 2026, nododd 80% o'r ymatebwyr oedd yn 16 neu 17 oed eu bod wedi cofrestru i bleidleisio. Roedd hyn yn cymharu ag 88% o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed ar y cyfan, dros 93% o'r rhai rhwng 25 a 44 oed, a thua 99% o'r rhai 55 oed a hŷn ('Adroddiad ar etholiadau'r Senedd 2026', Y comisiwn Etholiadol, 2026). Roedd mwy o ansicrwydd hefyd ymhlith yr ymatebwyr iau; nid oedd 15% o'r rhai 16 a 17 oed yn siŵr a oeddent wedi cofrestru, o'i gymharu â 10% o'r rhai rhwng 16 a 24 oed ar y cyfan, a 5% o'r rhai rhwng 25 a 34 oed. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar yr hyn a adroddwyd gan ymatebwyr mewn panel arolwg, yn hytrach nag ar gofnodion cofrestru wedi'u dilysu, ac efallai eu bod yn destun tuedd samplu a thuedd ymateb.

Roedd y gyfradd bleidleisio a adroddwyd ymhlith ymatebwyr iau a nododd eu bod wedi cofrestru yn debyg i'r hyn a welwyd mewn grwpiau oedran iau eraill. Ymhlith yr ymatebwyr i'r un arolwg gan y Comisiwn Etholiadol yn 2026 a nododd eu bod wedi cofrestru, dywedodd 78% o bobl 16 a 17 oed eu bod wedi pleidleisio; o gymharu â 74% o'r rhai rhwng 16 a 24 oed ar y cyfan, 77% o'r rhai rhwng 25 a 34 oed, a 75% o'r rhai rhwng 35 a 44 oed ('Adroddiad ar etholiadau'r Senedd 2026', Y Comisiwn Etholiadol, 2026). Nid cyfraddau pleidleisio swyddogol yw'r ffigurau hyn, ac ni ellir eu cymhwyso'n gyffredinol i'r holl bobl ifanc sydd wedi cofrestru. Serch hynny, ynghyd â'r canfyddiadau ansoddol, maent yn awgrymu y gallai cofrestru a theimlo bod rhywun wedi cael digon o wybodaeth i gymryd rhan fod yn heriau pwysig – yn hytrach na'r weithred ymarferol o bleidleisio yn unig.

4.1.3. Addysg wleidyddol a dylanwadau ehangach ar ymgysylltu

Mae ymgysylltiad pobl ifanc yn cael ei lunio gan y cyd-destunau ehangach o'u cwmpas, yn enwedig teulu, cefndir economaidd-gymdeithasol, yr iaith Gymraeg ac addysg. Canfu'r Comisiwn Etholiadol fod diddordeb y teulu mewn gwleidyddiaeth a'r grŵp economaidd-gymdeithasol yn ddangosyddion pwysig o ymgysylltiad gwleidyddol pobl ifanc ('Barn pobl

ifanc ar wleidyddiaeth a phleidleisio 2026', Y Comisiwn Etholiadol, 2026). Canfu ymchwil i bleidleisio yn 16 oed yng Nghymru hefyd fod pobl 16 a 17 oed sy'n siarad Cymraeg yn dangos lefelau uwch o ymgysylltiad gwleidyddol na'u cyfoedion nad ydynt yn siarad Cymraeg, gyda chysylltiad rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac ymgysylltiad mwy. Mae hyn yn ymwneud â mesurau ehangach o ymgysylltiad gwleidyddol, yn hytrach na nifer y pleidleiswyr mewn etholiadau i'r Senedd neu etholiadau lleol yn benodol ('Camgychwyn: Pleidleisio yn 16 oed yng Nghymru yn Etholiad Senedd Cymru 2021 | Etholiad Senedd Cymru', Griffiths et al., 2025).

Gall ysgolion ac athrawon fod yn ffynonellau pwysig o wybodaeth wleidyddol, ond mae'n ymddangos bod y profiad o addysg ddemocrataidd yn anwastad. Mae data gan y Comisiwn Etholiadol yn awgrymu bod addysg wleidyddol yn parhau i fod yn fwlch: dim ond 35% o bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n dweud eu bod wedi dysgu'n ddiweddar am bleidleisio, etholiadau neu sut mae democratiaeth yn gweithio yn yr ysgol neu'r coleg, tra bod 59% yn dweud nad ydynt wedi gwneud hynny ('Barn pobl ifanc ar wleidyddiaeth a phleidleisio', Y Comisiwn Etholiadol, 2026). Canfu ymchwil gan Brifysgol Caerdydd, yn yr un modd, mai dim ond 28% o bobl ifanc 16 a 17 oed a holwyd oedd yn cofio trafod 'Pleidleisio yn 16 oed' mewn ysgol, clwb ieuenctid neu gymdeithas; er bod yr astudiaeth yn nodi y dylid dehongli hyn yng nghyd-destun pandemig Covid-19, a amharodd ar weithgareddau ymgysylltu a gynlluniwyd mewn cysylltiad ag etholiad 2021 ('Camgychwyn: Pleidleisio yn 16 oed yng Nghymru yn Etholiad Senedd Cymru 2021 | Etholiad Senedd Cymru', Griffiths et al., 2025). Nododd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad hefyd y dylai gostwng yr oedran pleidleisio gael ei ategu gan addysg a gwybodaeth briodol ym maes gwleidyddiaeth a dinasyddiaeth ('Senedd sy'n Gweithio i Gymru', Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, 2017).

Mae'n ymddangos bod rhieni'n arbennig o bwysig wrth helpu pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio. Mae data gan y Comisiwn Etholiadol yn dangos, ymhlith pobl ifanc 16 a 17 oed sydd wedi cofrestru, bod 59% yn dweud bod rhiant neu warcheidwad wedi dweud wrthynt sut i gofrestru; mae hyn yn cymharu â 15% sy'n nodi ysgol neu goleg, a 15% sy'n nodi cyfryngau cymdeithasol ('Barn pobl ifanc ar wleidyddiaeth a phleidleisio', Y Comisiwn Etholiadol, 2026). Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth ehangach sy'n dangos bod diddordeb teuluol mewn gwleidyddiaeth yn dylanwadu ar ymgysylltiad democrataidd pobl ifanc. Mae hefyd yn awgrymu efallai y bydd pobl ifanc – nad ydynt yn dod o aelwydydd sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth neu sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol – yn llai tebygol o gael yr anogaeth sydd ei hangen arnynt ('Camgychwyn: Pleidleisio yn 16 oed yng Nghymru yn Etholiad Senedd Cymru 2021 | Etholiad Senedd Cymru', Griffiths et al., 2025)

4.1.4. Safbwyntiau rhanddeiliaid ar ymgysylltu gwleidyddol ymhlith pobl ifanc

Mae rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon hefyd yn awgrymu nad parodrwydd pobl ifanc i gymryd rhan yw'r broblem, i raddau helaeth, ond yn hytrach y cymorth sydd ar gael i'w galluogi i gymryd rhan yn hyderus. Nododd rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda phobl ifanc fod ganddynt ddiddordeb mewn materion sy'n effeithio arnynt, ond nad ydynt bob amser yn cysylltu'r materion hynny â gwleidyddiaeth neu etholiadau yng Nghymru. Pwysleisiont hefyd y gall ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddibynnu'n fawr ar yr

oedolion a'r amgylcheddau o amgylch pobl ifanc, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau ieuenctid, athrawon, rhieni a chyfoedion.

Mae cyfryngau cymdeithasol yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth wleidyddol i bobl ifanc, ond mae hefyd yn creu heriau o ran ymddiriedaeth a chamwybodaeth. Canfu'r Comisiwn Etholiadol fod pobl ifanc yn dod ar draws cynnwys gwleidyddol ar-lein hyd yn oed pan nad ydyn nhw'n chwilio amdano'n weithredol, gyda llawer yn nodi eu bod wedi dod i gysylltiad â chamwybodaeth ac ymddiriedaeth gymharol isel mewn cyfryngau cymdeithasol fel ffynhonnell ('Barn pobl ifanc ar wleidyddiaeth a phleidleisio', Y Comisiwn Etholiadol, 2026). Nododd rhanddeiliaid hefyd gyfryngau digidol a chymdeithasol fel sianeli pwysig ar gyfer cyrraedd pobl ifanc, gan bwysleisio bod angen i wybodaeth fod yn hygyrch, yn berthnasol ac wedi'i seilio ar fywydau beunyddiol pobl ifanc.

4.1.5. Beth sydd eto i'w ddeall

Er bod tystiolaeth bresennol yn cynnig darlun defnyddiol o gofrestru, gwybodaeth wleidyddol ac ymgysylltiad ymhlith pobl ifanc, mae llai o ddealltwriaeth am eu profiad o ddod yn gymwys i bleidleisio, a'r hyn sy'n eu galluogi i droi'r hawl hon yn gyfranogiad ystyrlon. Yn benodol, mae tystiolaeth gyfyngedig ar gael ynghylch sut mae pobl ifanc yn llywio'r camau ymarferol sy'n gysylltiedig â phleidleisio, yn meithrin hyder wrth wneud penderfyniadau gwleidyddol, ac yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth a chymorth amrywiol.

Felly, mae'r ymchwil ansoddol yn archwilio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl ifanc o'r bleidlais i'r rhai 16 oed, eu profiadau o gofrestru a phleidleisio, a'r graddau y mae cymhwysedd yn dylanwadu ar eu hymgysylltiad gwleidyddol a'u teimlad bod ganddynt lais. Mae hefyd yn ystyried rôl ysgolion, teulu a chyfryngau cymdeithasol wrth feithrin hyder a chyfranogiad gwybodus.

Fodd bynnag, ni all yr ymchwil benderfynu a yw rhoi'r bleidlais i bobl 16 oed wedi arwain at newidiadau parhaus yn y nifer sy'n pleidleisio, neu at arferion pleidleisio hirdymor ledled Cymru.

4.2 Dinasyddion tramor cymwys

Estynnodd Adran 11 o Ddeddf 2020 hawliau pleidleisio yn etholiadau'r Senedd i ddinasyddion tramor cymwys 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru, gyda'r newid yn berthnasol i etholiadau a gynhaliwyd ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021. O dan y Ddeddf, dinasyddion tramor cymwys yw'r rhai nad ydynt yn ddinasyddion y Gymanwlad, Iwerddon neu'r UE perthnasol ac nad oes angen caniatâd mewnfudo arnynt i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, neu sydd wedi cael caniatâd i wneud hynny. Mae gofynion cymhwysedd etholiadol eraill hefyd yn berthnasol.(Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020', Senedd Cymru, 2020).

4.2.1. Hawliau pleidleisio

4.2.1.1. Ehangu hawliau pleidleisio a'r dystiolaeth bresennol

Mae ymestyn hawliau pleidleisio i ddinasyddion tramor sy'n bodloni'r meini prawf yn ehangu cynhwysiant democrataidd ffurfiol yng Nghymru, er bod tystiolaeth o'i effaith yn ymarferol yn parhau i fod yn gyfyngedig. Ymestynnodd Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i ddinasyddion tramor cymwys; gweithredwyd y

newidiadau hyn am y tro cyntaf yn etholiad mis Mai 2021 (Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020', Senedd Cymru, 2020). Roedd y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig yn amlinellu'r rhesymeg dros alluogi pobl o genhedloedd gwahanol, sydd wedi gwneud Cymru yn gartref iddynt, i gymryd rhan yn niwylliant democrataidd Cymru. Roedd yn cyflwyno'r broses o roi'r hawl i bleidleisio drwy lens cynhwysiant, cydnabyddiaeth a chyfrifoldeb democrataidd ('Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol: yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol', Senedd Cymru, 2020)'. Fodd bynnag, canlyniadau a fwriadwyd oedd y rhain, yn hytrach na thystiolaeth bod y diwygiad wedi arwain at newid yn y lefelau cyfranogiad neu'r teimladau o gynhwysiant.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod hawliau pleidleisio eang i breswylwyr nad ydynt yn ddinasyddion yn parhau i fod yn gymharol anghyffredin. Mae ymchwil gymharol yn nodi dim ond 5 gwlad sydd wedi ymestyn hawliau pleidleisio cyffredinol i breswylwyr nad ydynt yn ddinasyddion ar bob lefel wleidyddol; er hynny, mae hyn yn cynnig tystiolaeth gyd-destunol yn hytrach na chymhariaeth uniongyrchol â chyd-destun datganoledig Cymru ('Two paths towards the exceptional extension of national voting rights to non-citizen residents', Altman, Huertas-Hernández and Sánchez, 2023). Mae tystiolaeth ryngwladol ehangach hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod hawliau pleidleisio i bobl nad ydynt yn ddinasyddion yn parhau i fod yn gyfyngedig iawn y tu hwnt i etholiadau lleol. Mae hyn yn gosod diwygiadau Cymru o fewn dadl ehangach ynghylch y berthynas rhwng preswylio, dinasyddiaeth a hawliau democrataidd ('Immigrants, emigrants and the right to vote: a story of double standards', Arrighi, 2021).

4.2.1.2. Cofrestru etholiadol a chyfranogiad

Ar ddiwrnod etholiad y Senedd yn 2026, amcangyfrifodd y Comisiwn Etholiadol, yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, fod tua 45,345 o wladolion tramor cymwys wedi cofrestru i bleidleisio ar draws etholaethau lle'r oedd data ar gael (Comisiwn Etholiadol, 2026). Nid oedd data ar gael ar gyfer Gwynedd Maldwyn, Brycheiniog Tawe Nedd a Phontypridd Cynon Merthyr; felly, nid yw'r ffigur hwn yn cynrychioli cyfanswm cyflawn ar gyfer Cymru a dylid ei ddehongli'n ofalus o ystyried pryderon ehangach ynghylch ansawdd data 2026. Nid oes data cofrestru cymaradwy ar gael ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021, sy'n cyfyngu ar y gallu i asesu newidiadau mewn cofrestru dros amser ar gyfer y grŵp hwn.

Er bod hyn yn rhoi rhyw syniad o nifer y dinasyddion tramor cymwys sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn 2026, ni all y data sydd ar gael ddarparu darlun cyflawn o gofrestru na chyfranogiad ymhlith y grŵp hwn. Yn benodol, oherwydd nad yw'r data'n cwmpasu'r holl etholaethau ac nad oes amcangyfrif dibynadwy o gyfanswm y boblogaeth gymwys, nid yw'n bosibl cyfrifo cyfradd cofrestru. Hefyd, nid oes tystiolaeth o arolygon sy'n canolbwyntio ar y grŵp hwn i roi rhagor o wybodaeth am gofrestru neu bleidleisio – yn wahanol i'r hyn sydd ar gael ar gyfer pobl 16 a 17 oed. Felly, ni all y data sydd ar gael ddangos sut mae cofrestru wedi newid ers y diwygiad, na i ba raddau mae cymhwysedd wedi arwain at gyfranogiad yn yr etholiadau.

4.2.1.3. Rhwystrau i gyfranogiad democrataidd

Mae tystiolaeth ehangach o'r DU yn awgrymu na ddylid dehongli cyfranogiad gwleidyddol is ymhlith poblogaethau mewnfudwyr a lleiafrifoedd ethnig fel diffyg diddordeb gwleidyddol yn unig. Mae ymchwil yn nodi rhwystrau gan gynnwys cofrestru, ansicrwydd ynghylch cymhwysedd, amgylcheddau gwybodaeth a phrofiadau o allgáu, gyda mewnfudwyr diweddar, rhentwyr preifat a phobl iau yn cael eu heffeithio'n arbennig ('The Democratic Participation of Ethnic Minority and Immigrant Voters in the UK', Sobolewska a Barclay, 2021). Mae hyn yn darparu cyd-destun defnyddiol ar gyfer deall rhwystrau posibl sy'n wynebu dinasyddion tramor cymwys yng Nghymru, er na ddylid trin poblogaethau mewnfudwyr a lleiafrifoedd ethnig fel dirprwyon uniongyrchol i'r rhai sy'n gymwys o dan ddiwygiadau Cymru.

4.2.1.4. Safbwyntiau rhanddeiliaid ar ymgysylltu gwleidyddol ymhlith dinasyddion tramor sy'n gymwys

Yn yr un modd, mae rhanddeiliaid a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil hwn yn tynnu sylw at y ffaith y gall ymwybyddiaeth a hyder ymhlith dinasyddion tramor cymwys fod yn anghyson. Mae'r rhai sy'n gweithio ym maes gweinyddu etholiadau yn disgrifio achosion lle nad yw dinasyddion tramor cymwys yn sylweddoli bod ganddynt hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd, tra bod rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda chymunedau mudol a lleiafrifoedd ethnig yn nodi bod rhai trigolion yn tybio na allant bleidleisio heb ddinasyddiaeth Brydeinig. Mae rhanddeiliaid hefyd yn pwysleisio bod dinasyddion tramor cymwys yn gynulleidfa amrywiol, gyda phrofiadau'n debygol o amrywio yn ôl hyd preswylio, iaith, rhwydweithiau lleol a chyfarwyddyd â sefydliadau Cymru.

Mae rhanddeiliaid yn nodi bod cyfryngwyr dibynadwy o bosibl yn bwysig wrth gefnogi ymwybyddiaeth a chyfranogiad. Awgrymir sefydliadau cymunedol, darparwyr Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL), sefydliadau ffydd, rhwydweithiau lleol a chyfathrebiadau awdurdodau lleol fel llwybrau defnyddiol ar gyfer cyrraedd pobl a allai fod yn llai cyfarwydd â democratiaeth Cymru neu â llai o gysylltiad â gwybodaeth wleidyddol ffurfiol. Mae'r safbwyntiau hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth ehangach ar bwysigrwydd amgylcheddau gwybodaeth ac ansicrwydd ynghylch cymhwysedd.('The Democratic Participation of Ethnic Minority and Immigrant Voters in the UK', Sobolewska and Barclay, 2021), er nad ydynt yn nodi pa ddulliau cyfathrebu sydd fwyaf effeithiol ar gyfer cymhwyso dinasyddion tramor yng Nghymru.

4.2.1.5. Beth sydd eto i'w ddeall

Mae tystiolaeth ar effaith ehangach etholfreinio ar ymdeimlad o gynrychiolaeth, cynhwysiant neu effeithiolrwydd gwleidyddol dinasyddion tramor cymwys yn parhau i fod yn gyfyngedig. Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi cynhwysiant a chydnabyddiaeth fel canlyniadau bwriadedig.('Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol: yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol', Senedd Cymru, 2020), nid yw ymchwil bresennol yn dangos a yw ehangu hawliau pleidleisio wedi newid teimladau dinasyddion tramor cymwys o ran perthyn, cynrychiolaeth, effeithiolrwydd gwleidyddol neu ymddiriedaeth mewn sefydliadau democrataidd.

Felly, mae'r ymchwil ansoddol yn archwilio sut mae dinasyddion tramor sy'n gymwys yn dod i wybod am eu hawliau pleidleisio, eu dealltwriaeth o gymhwysedd a sefydliadau democrataidd Cymru, a'u profiadau o gofrestru a chymryd rhan. Mae hefyd yn ystyried a yw'r cyfle i bleidleisio yn dylanwadu ar eu hymgysylltiad gwleidyddol, eu synnwyr o berthyn neu gynrychiolaeth, a pha rwystrau a ffactorau galluogi sy'n llunio'r broses o gymryd rhan.

Fodd bynnag, ni all yr ymchwil bennu effaith y diwygiadau ar lefel y boblogaeth o ran cofrestru neu nifer y pleidleiswyr, a rhaid dehongli'r canfyddiadau yng nghyd-destun amrywiaeth y dinasyddion tramor sy'n gymwys, yn ogystal â chyfyngiadau'r sampl ansoddol.

4.2.2. Hawliau ymgeisio

4.2.2.1. Ehangu hawliau ymgeisio a'r dystiolaeth bresennol

Ymestynnodd Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yr hawl i sefyll i'w hethol i'r Senedd i ddinasyddion tramor cymwys sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol, gyda'r newidiadau'n gymwys am y tro cyntaf yn etholiad mis Mai 2021.('Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020', Senedd Cymru, 2020). Mae hyn yn golygu y gall dinasyddion tramor sy'n bodloni'r meini prawf gymryd rhan, nid yn unig fel pleidleiswyr, ond hefyd – lle maent yn gymwys – fel ymgeiswyr a chynrychiolwyr etholedig.

Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â sut mae'r diwygiad hwn wedi gweithredu'n ymarferol. Nid yw ymchwil sy'n bodoli eisoes yn sefydlu pa mor ymwybodol yw dinasyddion tramor cymwys o'u hawl i sefyll, a yw cymhwysedd wedi dylanwadu ar ystyried ymgeisyddiaeth, na pha mor hygyrch yw'r canfyddiad o swyddi etholedig.

4.2.2.2. Data etholiadol a bylchau mewn tystiolaeth

Nid yw data'r Comisiwn Etholiadol yn rhoi darlun uniongyrchol o'r ffordd y mae hawliau ymgeisyddiaeth yn cael eu deall neu eu harfer. Mae'r data etholiadol sydd ar gael yn cynnig rhywfaint o gyd-destun ynglŷn â chofrestru a phleidleisio, ond ni all nodi maint y boblogaeth o ddinasyddion tramor sy'n gymwys i sefyll, na phennu a yw ymestyn hawliau ymgeisyddiaeth wedi dylanwadu ar lwybrau gwleidyddol neu gynrychiolaeth dros amser. Felly, nid oes sylfaen dystiolaeth feintiol ar gyfer hawliau ymgeisyddiaeth sy'n cyfateb i'r data cofrestru sydd ar gael ar gyfer pobl 16 a 17 oed.

4.2.2.3. Rhwystrau i gyfranogiad a chynrychiolaeth wleidyddol

Mae tystiolaeth ehangach yn awgrymu nad yw hawliau gwleidyddol ffurfiol o reidrwydd yn trosi'n gyfranogiad. Mae ymchwil yn nodi ymwybyddiaeth, gwybodaeth, cofrestru, ymddiriedaeth, effeithiolrwydd gwleidyddol ac amgylchiadau ymarferol fel dylanwadau ar ymgysylltiad democrataidd. ('The Democratic Participation of Ethnic Minority and Immigrant Voters in the UK', Sobolewska a Barclay, 2021). Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hon yn ymwneud yn bennaf â phleidleisio a chyfranogiad gwleidyddol ehangach, yn hytrach na sefyll fel ymgeisydd yn benodol. Felly, ni ellir pennu pa rwystrau sydd bwysicaf i ddinasyddion tramor cymwys sy'n ystyried sefyll ar gyfer y Senedd.

Mae ymchwil flaenorol yng Nghymru hefyd wedi nodi rhwystrau ac anogwyr i sefyll mewn etholiad, gan ddarparu cyd-destun perthnasol ar gyfer deall llwybrau gwleidyddol a chynrychiolaeth ('Dadansoddi Amrywiaeth: Rhwystrau a chymhellion i sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru', Awan-Scully et al., 2018). Fodd bynnag, nid yw'r ymchwil

hwn yn benodol i ymestyn hawliau ymgeisyddiaeth i ddinasyddion tramor cymwys, ac ni ddylid tybio bod y canfyddiadau'n berthnasol yn unffurf i'r grŵp hwn.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn gosod estyn hawliau gwleidyddol i drigolion nad ydynt yn ddinasyddion o fewn dadl ehangach ynghylch y berthynas rhwng preswylio, dinasyddiaeth ac aelodaeth ddemocrataidd.('Two paths towards the exceptional extension of national voting rights to non-citizen residents', Altman, Huertas-Hernández and Sánchez, 2023; 'Immigrants, emigrants and the right to vote: a story of double standards', Arrighi, 2021). Mae'r astudiaethau hyn yn darparu cyd-destun cysyniadol defnyddiol, ond nid ydynt yn archwilio'n uniongyrchol a yw ymestyn hawliau ymgeisio yn newid cynrychiolaeth wleidyddol neu benderfyniadau i sefyll am swydd etholedig yng Nghymru.

4.2.2.4. Safbwyntiau rhanddeiliaid ar ymwybyddiaeth a chynrychiolaeth

Mae rhanddeiliaid a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil hwn yn awgrymu y gallai ymwybyddiaeth o hawliau ymgeisyddiaeth fod yn is nag ymwybyddiaeth o hawliau pleidleisio. Mae'r rhai sy'n gweithio gyda chymunedau mudol a lleiafrifoedd ethnig yn disgrifio ymwybyddiaeth gyfyngedig o gymhwysedd pleidleisio ymhlith rhai trigolion, ochr yn ochr â llai o gyfarwyddyd â'r posibilrwydd y gallai dinasyddion tramor cymwys fod yn gymwys i sefyll ar gyfer y Senedd. Mae'r adroddiadau hyn yn awgrymu y gallai hawliau ymgeisyddiaeth fod yn llai gweladwy na hawliau pleidleisio, yn enwedig ymhlith pobl nad ydynt eisoes yn ymwneud â rhwydweithiau gwleidyddol neu ddinesig.

Mae rhanddeiliaid sy'n gweithio ym maes cyfranogiad democrataidd a diwygio etholiadol hefyd yn tynnu sylw at y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael ar effeithiau'r diwygiadau hyd yn hyn. Maent yn awgrymu bod newidiadau i gynrychiolaeth wleidyddol yn debygol o ddatblygu dros amser, yn hytrach na dilyn yn syth o estyniad cymhwysedd. Maent hefyd yn pwysleisio amrywiaeth dinasyddion tramor cymwys, gyda llwybrau posibl i gyfranogiad gwleidyddol wedi'u llunio gan ffactorau gan gynnwys hyd preswylio, iaith, rhwydweithiau lleol, hyder ac ymgysylltiad gwleidyddol blaenorol. Safbwyntiau rhanddeiliaid ar ddylanwadau posibl yw'r rhain, yn hytrach nag effeithiau sefydledig y diwygiad.

4.2.2.5. Beth sydd eto i'w ddeall

Mae tystiolaeth bresennol yn rhoi cipolwg cyfyngedig ar ba un a yw dinasyddion tramor cymwys yn ymwybodol o'u hawl i sefyll ar gyfer y Senedd, a yw'r diwygiad wedi dylanwadu ar eu huchelgeisiau gwleidyddol, neu pa rwystrau a galluogwyr sy'n llunio ystyriaeth o ymgeisyddiaeth.

Felly mae'r ymchwil ansoddol yn archwilio'r cwestiynau hyn gyda dinasyddion tramor cymwys sy'n weithgar yn wleidyddol, gan gynnwys eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o hawliau ymgeisyddiaeth, cyfranogiad gwleidyddol blaenorol, canfyddiadau o swydd etholedig a'r ffactorau a allai eu hannog neu eu digalonni rhag sefyll.

Fodd bynnag, ni all yr ymchwil benderfynu a yw'r diwygiad wedi cynyddu nifer y dinasyddion tramor cymwys sy'n sefyll am etholiad, neu wedi newid cynrychiolaeth wleidyddol ledled Cymru.

4.3 Mandad deuol

4.3.1. Y newidiadau deddfwriaethol a'r dystiolaeth bresennol

Mae tystiolaeth gyfyngedig ar gael ynghylch effaith ymarferol cyfyngiadau ar ddal swydd leol a swydd yn y Senedd ar yr un pryd. Cyflwynodd Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 gyfyngiadau sy'n atal cynghorwyr siroedd a bwrdeistrefi sirol rhag gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd ar yr un pryd, yn amodol ar eithriadau penodol. (Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020', Senedd Cymru, 2020). Mae'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig yn nodi'r rhesymeg dros y diwygiad, gan gynnwys pryderon ynghylch atebolrwydd a gofynion ymarferol dal rolau etholedig ar lefel leol a chenedlaethol.('Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Memorandwm Esboniadol: yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol', Senedd Cymru, 2020). Fodd bynnag, mae hyn yn darparu tystiolaeth o'r rhesymeg polisi yn hytrach na sut mae'r cyfyngiadau wedi gweithredu'n ymarferol. Mae llawer llai o dystiolaeth ynghylch a yw'r cyfyngiadau'n effeithio ar benderfyniadau cynghorwyr ynghylch sefyll, cynnydd gwleidyddol, cynrychiolaeth leol neu recriwtio pleidiau.

4.3.2. Safbwyntiau rhanddeiliaid ar weithredu a datblygiad gwleidyddol

Mae rhanddeiliaid a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil hwn yn awgrymu y gallai effeithiau'r diwygiad fod yn fwyaf gweladwy ar bwyntiau penodol yn y llwybr gwleidyddol. Mae'r rhai sy'n gweithio ym maes gweinyddu etholiadau yn tynnu sylw at gwestiynau ymarferol ynghylch beth sy'n digwydd pan fydd cynghorwyr yn sefyll ar gyfer y Senedd, neu'n cael eu hethol iddi, gan gynnwys y potensial ar gyfer isetholiadau, ansicrwydd ynghylch amseru a phwysau gweinyddol pan fydd swyddi gwag yn codi. Mae'r safbwyntiau hyn yn awgrymu y gallai'r cyfyngiadau ddod yn arbennig o berthnasol yn ystod ymgeisyddiaeth, etholiad a phontio rhwng rolau lleol a chenedlaethol, yn hytrach nag effeithio ar bob cynghorydd yn yr un ffordd.

Mae rhanddeiliaid a gyfwelwyd hefyd yn codi cwestiynau am y goblygiadau posibl ar gyfer cynrychiolaeth leol a recriwtio gwleidyddol. Yn benodol, maent yn tynnu sylw at a allai cyfyngiadau ddylanwadu ar barodrwydd cynghorwyr i sefyll ar gyfer y Senedd a goblygiadau symud o swydd leol i swydd genedlaethol. Mae hyn yn tynnu sylw at ganlyniadau posibl ar gyfer piblinellau ymgeiswyr, cynllunio olyniaeth a'r berthynas rhwng profiad gwleidyddol lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, effeithiau posibl a nodwyd gan randdeiliaid yw'r rhain, yn hytrach na chanlyniadau sefydledig y diwygiad.

4.3.3. Beth sydd eto i'w ddeall

Nid yw'r dystiolaeth bresennol yn dangos sut mae'r cyfyngiadau'n dylanwadu ar benderfyniadau cynghorwyr i sefyll ar gyfer y Senedd, ar eu datblygiad gwleidyddol, neu ar barhad cynrychiolaeth leol.

Felly mae'r ymchwil ansoddol yn archwilio ymwybyddiaeth a barn cynghorwyr ar y cyfyngiadau, eu profiadau o ddatblygiad gwleidyddol, a'r goblygiadau canfyddedig i etholwyr a chynghorau. Fodd bynnag, ni all fesur graddfa genedlaethol yr effeithiau hyn na sefydlu a yw'r cyfyngiadau wedi newid recriwtio ymgeiswyr neu gynrychiolaeth wleidyddol ledled Cymru.

4.4 Crynodeb o dystiolaeth bresennol a’r bylchau sy’n weddill

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth bresennol yn cadarnhau bod y darpariaethau deddfwriaethol wedi'u cyflwyno ac yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i'w gweithrediad ymarferol. Mae'r sail dystiolaeth ar ei chryfaf mewn perthynas â phobl ifanc, yn enwedig cofrestru etholiadol, cyfranogiad a adroddir, gwybodaeth wleidyddol ac ymgysylltiad. Mae rhywfaint o ddata cofrestru hefyd ar gael ar gyfer dinasyddion tramor cymwys, er bod sylw anghyflawn yn cyfyngu ar nifer y casgliadau. Mae tystiolaeth yn fwy cyfyngedig mewn perthynas ag ymestyn hawliau ymgeisyddiaeth ac effeithiau'r cyfyngiadau mandad deuol.

Felly, mae bylchau pwysig yn parhau o ran deall effaith ehangach y diwygiadau. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn darparu sail gyson ar gyfer asesu newidiadau mewn cyfranogiad neu gynrychiolaeth dros amser, nac ar gyfer pennu a ellir priodoli'r patrymau a welir i'r newidiadau deddfwriaethol. Mae natur a graddau'r cyfyngiadau hyn yn amrywio yn ôl y darpariaethau gwahanol a'r grwpiau yr effeithir arnynt.

Llywiodd y bylchau hyn yr ymchwil ansoddol sylfaenol a gynhaliwyd, sy'n archwilio sut mae'r diwygiadau'n cael eu deall a'u profi gan y rhai yr effeithir arnynt. Yn benodol, mae'n archwilio ymwybyddiaeth o hawliau, profiadau o bleidleisio ac ymgeisyddiaeth, canfyddiadau o gynrychiolaeth, a'r rhwystrau a'r galluogwyr sy'n llunio cyfranogiad. Felly mae'r ymchwil yn rhoi cipolwg ychwanegol ar sut mae'r darpariaethau'n gweithredu'n ymarferol, gan gydnabod na all canfyddiadau ansoddol ddarparu amcangyfrifon ar lefel y boblogaeth na sefydlu effeithiau achosol.

5. Canfyddiadau Ymchwil Ansoddol

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r canfyddiadau ansoddol yn ôl cynulleidfa a darpariaeth. Mae'n canolbwyntio ar beth mae cyfranogwyr yn ei wybod, sut maen nhw'n dehongli'r newidiadau a'r hyn maen nhw'n ei adrodd am gyfranogiad.

5.1 Pobl ifanc

Mae'r adran hon yn archwilio profiadau pobl ifanc rhwng 16 ac 21 oed yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r polisi 'Pleidleisio yn 16', eu profiadau o gofrestru a phleidleisio, ac effaith y diwygiad ar ymgysylltu a chyfranogiad gwleidyddol. Mae hefyd yn ystyried y rhwystrau a'r ffactorau sy'n hwyluso cyfranogiad ystyrlon, gan gynnwys rôl addysg wleidyddol, dylanwad teuluol, a mynediad at wybodaeth ddibynadwy.

5.1.1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn y sampl yn ymwybodol bod ganddynt yr hawl i bleidleisio, er y gall yr ymwybyddiaeth hon ddod yn hwyr. Mae lleiafrif yn nodi iddynt ddarganfod eu bod yn gymwys ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru fynd heibio, neu hyd yn oed ar ôl diwrnod yr etholiad. Nid yw rhai pobl ifanc yn cofio cofrestru, neu maent yn dweud bod rhiant wedi eu cofrestru, heb sylweddoli eu bod ar y gofrestr nes i gardiau pleidleisio gyrraedd, neu nes iddynt gyrraedd y lleoliad pleidleisio. O ganlyniad, efallai na fydd rhai wedi arfer eu hawl i bleidleisio yn weithredol cyn diwrnod yr etholiad. Er bod rhai yn ymwybodol o'u hawl i bleidleisio, nid oeddent yn sylweddoli mai diwygiad diweddar oedd hyn; gan adlewyrchu'r ffaith bod y diwygiad eisoes wedi dod i rym erbyn iddynt gyrraedd yr oedran pleidleisio.

“Mae’n un o’r pethau yna lle mae pawb yn sôn amdano, ac rydych chi’n meddwl y byddai’n rhywbeth enfawr, ond wnes i ddim hyd yn oed sylweddoli ei fod yn digwydd tan y bore hwnnw… Dim ond mater o, Mam yn troi a dweud, ‘iawn, wyt ti eisiau mynd i bleidleisio nawr? Ie, iawn, gad i ni fynd.’” – Benyw, 16 i 17 oed, Cefn Gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru

“Doedd neb wedi dweud llawer wrthyf amdano, mewn gwirionedd. Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod y gallwn i bleidleisio ar y pryd. Pan droais yn 16 oed, cefais lythyr yn dweud y gallwn i bleidleisio, a meddyliais, ‘iawn’.” – Gwryw, 18 i 21, Gogledd Cymru

“I ddweud y gwir, doeddwn i ddim yn gwybod ei fod wedi cael ei ostwng o 18 i 16. Roeddwn i’n meddwl ei fod wedi bod yn 16 ers oesoedd.” - Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

Er y gall pobl ifanc fynegi materion sy'n effeithio ar eu bywydau yn glir, nid ydynt bob amser yn cysylltu'r rhain â gwleidyddiaeth. Mae pobl ifanc yn sôn am wleidyddiaeth fel rhywbeth sy'n hollol wahanol i'w bywydau bob dydd, ac yn ystyried dysgu am wleidyddiaeth fel tasg academaidd y byddai angen neilltuo amser iddi. Mae hyn yn golygu y gall datblygu barn wleidyddol deimlo fel tasg frawychus; gall fod yn anodd gwybod ble i ddechrau, a phwy i ymddiried ynddynt.

“Dydy hi ddim yn teimlo fel ei bod hi’n effeithio arnat ti’n uniongyrchol pan nad wyt ti, fel petai, yn darllen amdano neu’n cadw i fyny â phethau. Mae’n teimlo fel bod pethau’n digwydd yn y cefndir yn unig. Ac yna ti’n clywed gan bobl hŷn yn cwyno, a dyna fwy neu lai

yr hyn dwi'n ei ddysgu, mewn gwirionedd." – Gwryw, 18 i 21, Cefn Gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru

5.1.2. Barn am bleidleisio yn 16 oed

Mae brwdfrydedd dros gael yr hawl i bleidleisio yn cael ei dymheru gan bryderon ynghylch aeddfedrwydd ac addysg wleidyddol eu cyfoedion. Mae pobl 16 a 17 oed sy'n ymgysylltu'n wleidyddol yn ystyried eu hunain yn lleiafrif addysgedig ymhlith eu cyfoedion; mae rhai cyfranogwyr hŷn yn cwestiynu a oeddent yn ddigon aeddfed i bleidleisio yn yr oedran hwnnw, gan eu bod bellach wedi cael amser i fyfyrio. Mae rhai hefyd yn nodi bod ennill yr hawl i bleidleisio yn 16 oed yn teimlo'n anghydnaws â cherrig milltir eraill sy'n dynodi'r newid i fod yn oedolyn, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn digwydd yn 18 oed.

"Pan o'n i'n 16 oed, doeddwn i ddim wedi cael llawer o addysg am ddim byd mewn gwirionedd. Dwi'n teimlo mai dim ond dilyn y llif o'r hyn roedd pobl eraill yn ei wneud wnes i. Ond erbyn i mi gyrraedd 18 oed, dwi'n meddwl bod gen i ychydig mwy o wybodaeth am y gwahanol bleidiau, dros beth i bleidleisio, sut i wneud hynny – y cyfan o'r pethau hynny." - Gwryw, 18 i 21, Gogledd Cymru

Ymddengys fod ymgysylltiad gwleidyddol (a pherswadio) yn cael ei bennu'n bennaf gan ymgysylltiad oedolion hŷn o fewn yr aelwyd. Yn aml, mae cyfranogwyr yn teimlo bod eu safbwyntiau gwleidyddol a'u penderfyniadau pleidleisio yn cael eu llunio'n uniongyrchol gan beth mae eu rhieni'n ei feddwl a'i wneud. Felly, mae'r rhai nad yw eu rhieni wedi ymgysylltu'n wleidyddol fel arfer yn llai 'addysgedig' am wleidyddiaeth. I'r bobl ifanc hyn, teimlir bod dylanwad cyfoedion yn gryfach. Mae pobl ifanc sy'n ymgysylltu'n wleidyddol yn feirniadol o'r dull hwn o ffurfio barn wleidyddol, gan ei ddisgrifio fel un sy'n brin o annibyniaeth.

"Dwi'n meddwl bod un o fy ffrindiau wedi pleidleisio dros bwy ddywedodd ei rhieni wrthi i bleidleisio drosto, achos doedd hi ddim yn gwybod dros bwy i bleidleisio. Dwi'n gwybod bod llawer o'r bechgyn a aeth i fy ysgol, yn yr un flwyddyn â mi, newydd bleidleisio dros [PLAID X] achos eu bod nhw wedi gweld pethau ar-lein a meddwl, 'Mi wnai hynny.'" – Benyw, 16 i 17 oed, Cefn Gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru

"Cawson ni rywbeth yn doiledau'r bechgyn, mewn gwirionedd; roedden ni wedi gweld llun, ac roedd fel math o gyfrif ar y toiled. Roedd yn dweud rhywbeth fel 'Wnest ti bleidleisio dros [PLAID X]? Do / Naddo'. Bydd pawb sy'n defnyddio'r toiled hwnnw nawr yn meddwl, 'O, Mam bach, mae 40 o bobl wedi pleidleisio dros [PLAID X]'." – Benyw, 16 i 17 oed, Dwyrain Cymru

"Ie, dwi di siarad i rai o'r bechgyn a dwi'n credu bod nhw jyst fel [PLAID X], dwi'n hoffi [PLAID X] a pan dwi'n gofyn i nhw beth mae [PLAID X] yn mynd i wneud a wyt ti'n deall y effaith mae'n mynd i gael ar genod? Ac maen nhw fel, o dwi ddim wir yn gwybod be maen nhw'n mynd i wneud ond maen nhw jyst yn clywed off TikTok a phopeth o hynna fel gwybodaeth… Mae nhw'n pleidleisio beth maen nhw'n meddwl yn cŵl ar yr amser." - Benyw, 16 i 17 oed, Cefn Gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ystyrir addysg mewn ysgolion yn offeryn defnyddiol i greu chwarae teg o ran addysg wleidyddol, gan fod ganddi'r potensial i ymgysylltu â'r rhai nad ydynt yn dod o aelwydydd

sy'n ymwneud â materion o'r fath. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn y sampl yn teimlo bod yr addysg wleidyddol a gynigir iddynt yn yr ysgol yn annigonol, ac mewn rhai achosion, nad yw'n bodoli o gwbl. Mae'r rhan fwyaf yn ei disgrifio fel rhywbeth byr ac arwynebol, a gyflwynir mewn cynulliad byr fel digwyddiad unigol, ac sy'n ymdrin â fawr ddim mwy na'r ffaith y gallant bleidleisio.

“[Mae etholiad y Senedd] yn ymwneud â’r seddi, y pŵer a’r aelodau gwahanol sydd ynddo. Dydw i ddim ond wedi dysgu hynny’n ddiweddar. Does dim llawer o addysg ar gael ynglŷn â sut mae pleidleisio’n gweithio mewn gwirionedd, na sut mae pleidiau’n cael eu hethol i’r Senedd; dysgais i am hynny’n ddiweddar, pan oeddwn i’n 20 oed. Mae pobl 16 oed yn pleidleisio, felly mae angen iddyn nhw wybod hynny.” - Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

“Dwi’n meddwl bod angen ei ddysgu mewn ysgolion. Dwi’n teimlo bod pobl mor ddi-addysg. Hynny yw, maen nhw wedi caniatáu i ni bleidleisio, ond does dim byd i gefnogi hynny.” - Benyw, 16 i 17, Dwyrain Cymru

Mae awydd ymhlith pobl ifanc i ddysgu mwy am wleidyddiaeth Cymru yn yr ysgol. Mae cyfranogwyr yn teimlo y gall ysgolion gynnig addysg wleidyddol mor ddiduedd â phosibl, sy'n teimlo'n arbennig o bwysig yng nghyd-destun pryderon ynghylch gwybodaeth anghywir neu ragfarn ar gyfryngau cymdeithasol. Yn bwysicaf oll, mae pobl ifanc eisiau gwybodaeth glir, ddiduedd a chymaradwy am bleidiau; teimlir mai dyma'r wybodaeth anoddaf i'w chanfod yn ddibynadwy trwy eu hymchwil eu hunain. Mae pobl ifanc hefyd yn dweud y dylai ysgolion ddechrau addysgu myfyrwyr ar wleidyddiaeth cyn iddynt gyrraedd oedran pleidleisio, a dylid rhannu gwybodaeth ar draws sesiynau lluosog i gadarnhau dealltwriaeth. Mae rhai pobl ifanc sy'n ymgysylltiedig yn fwy gwleidyddol yn dechrau gwneud cysylltiadau rhwng gwleidyddiaeth a'u bywydau eu hunain ac yn teimlo y gallai deall y cysylltiad hwn a phwysigrwydd defnyddio'r hawl i bleidleisio helpu eu cyfoedion i ymgysylltu.

“Rwy’n teimlo, o’r eiliad y mae pobl yn [troi’n] 16 oed, bod angen rhoi gwybodaeth ddiduedd i ni am yr hyn y mae pob plaid yn ei gynnig mewn gwirionedd, a’u nodau. Hynny yw, mae angen i ni wybod yn iawn sut i fwrw pleidlais... Rwy’n teimlo bod angen gwneud hyn oll mewn ffordd gwbl ddiduedd, fel y gallwn ffurfio ein barn a’n safbwyntiau ein hunain heb gael ein dylanwadu gan bobl eraill... Rwy’n teimlo bod rhaid i’r cyfan fod yn gwbl ddiduedd; fel arall, fyddaf ddim yn credu gair ohono.” – Benyw, 16 i 17 oed, Cefn Gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru

“Os nad ydych chi’n gwybod dim amdano, fyddwch chi ddim yn dangos diddordeb. Ond mae egluro’r pwysigrwydd sydd y tu ôl iddo, a’r effeithiau gwirioneddol y bydd yn eu cael ar y wlad, yn bwysig; oherwydd rwy’n teimlo, unwaith y byddwch chi’n deall y bydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif mewn gwirionedd ac yn cael effaith ar yr hyn sy’n digwydd i’r wlad hon, yna bydd hynny’n eich annog i bleidleisio.” – Benyw, 16 i 17 oed, Cefn Gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru

“Dwi’n meddwl, pan o’n i’n iau, pan oedd pobl yn ceisio siarad am [wleidyddiaeth], mai’r hyn o’n i’n ei feddwl oedd rhywbeth fel, ‘O, does dim ots gen i am wleidyddiaeth; dwi ddim yn deall am beth rydych chi’n siarad’. Roeddwn i’n meddwl am bethau fel rhifau a siartiau. Ond

mewn gwirionedd, mae mor syml â, ‘O, mae angen arian arna i ar gyfer cinio ysgol’. Dyna wleidyddiaeth.” - Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

Mae pobl ifanc yn dweud y dylid cyflwyno gwybodaeth heb ragdybio bod unrhyw wybodaeth flaenorol ganddynt. Gan fod ymgysylltiad ar y cam hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar ymgysylltiad gwleidyddol rhieni, bydd rhai pobl ifanc yn cyrraedd 16 oed heb fawr ddim gwybodaeth – os o gwbl – am sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio yng Nghymru. Dylai addysg hefyd ymdrin â’r agweddau ymarferol ar bleidleisio, y dylanwad y gall cynrychiolwyr etholedig ei gael ar Gymru, a gwybodaeth am faniffestos pleidiau neu ymgeiswyr lleol.

“Wrth ddod at yr [ymchwil] hwn, doedd gen i wir ddim syniad amdano, gan nad yw fy nheulu yn dangos llawer o ddiddordeb. Dydy e ddim yn rhywbeth sy’n cael ei drafod yn aml o ddydd i ddydd. Rwy’n credu y byddai dysgu amdano mewn gwahanol leoedd yn llawer gwell, er mwyn helpu pobl i benderfynu a ddylen nhw bleidleisio ai peidio.” – Gwryw, 16 i 17 oed, Gogledd Cymru

“Wel, a oes rhaid cofrestru ar-lein? Chi'n gwybod, [dweud wrth bobl] i ble i fynd. Dwi'n siŵr, pe baech chi'n gofyn i'r rhan fwyaf o bobl yn ein hysgol ni, fydden nhw ddim hyd yn oed yn gallu dweud wrthych chi i ble i fynd... Chi'n gwybod, byddai rhywbeth fel cynulliad byr, neu hysbysiad yn ystod amser y dosbarth cofrestru, wedi gwneud gwahaniaeth mawr, dwi'n meddwl.” – Benyw, 16 i 17, Dwyrain Cymru

Yn absenoldeb addysg wleidyddol gynhwysfawr, mae llawer yn ystyried cyfryngau cymdeithasol yn sianel bwysig ar gyfer dysgu am wleidyddiaeth. Mae bron pawb wedi ennill rhywfaint o wybodaeth wleidyddol yn y modd hwn, trwy TikTok neu Instagram yn benodol. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang nad yw cynnwys byr yn ddigon i roi hyder llawn i bobl yn eu dealltwriaeth. Felly, gall cyfryngau cymdeithasol deimlo fel lle anodd i gymryd rhan ynddo i'r rhai sydd heb lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o wleidyddiaeth Cymru; i'r rhai hynny, mae'n teimlo fel eu bod yn ‘ymuno â'r sgwrs yn rhy hwyr’.

“Byddwn i’n dweud bod yr holl wybodaeth rwy’n ei chael ar gyfer pleidleisio yn dod o apiau cyfryngau cymdeithasol fel TikTok ac Instagram. Rwy’n teimlo bod problem gyda hynny, oherwydd bod y fideos yn fyr ac yn fywiog; dydyn nhw ddim yn cadw eich sylw, er y dylai fod mwy o wybodaeth ar gael am y pynciau hyn.” – Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

Mae cyfranogwyr yn adrodd bod y cynnwys gwleidyddol maen nhw'n ei weld ar gyfryngau cymdeithasol yn dod yn bennaf o asgell chwith eithafol neu dde eithafol gwleidyddiaeth. Maen nhw'n gweld safbwyntiau gwleidyddol llai cytbwys neu brif ffrwd. Mae rhai hefyd yn adrodd eu bod nhw wedi dod ar draws cynnwys 'abwyd cynddeiriogi' sy'n gwrthwynebu eu safbwyntiau gwleidyddol eu hunain yn uniongyrchol ac sy'n aml yn eithafol yn ei negeseuon; teimlir bod hyn yn cael ei ddangos iddyn nhw i ennyn ymgysylltiad. Teimlir hefyd fod cynnwys yn canolbwyntio'n bennaf ar wleidyddiaeth y DU, yn hytrach na gwleidyddiaeth leol, a all arwain at ddryswch.

“Dw i’n gwylio pethau sy’n ymwneud â gwleidyddiaeth – yn enwedig gwleidyddiaeth America a’r DU – bron bob un diwrnod, achos mae wastad ar fy ffôn... Mae’n teimlo fel bod popeth wedi’i rannu’n ddwy ochr: naill ai rydych chi ar y chwith neu ar y dde – wyddoch chi, eisiau cadw mewnfudwyr allan neu eisiau eu cael i mewn, a phethau felly. Ac mae’n dilyn yn

bendant iawn y math o feddylfryd sydd i'w weld yn America, gyda'r gwahaniaeth rhwng y 'taleithiau glas' a'r 'taleithiau coch'." – Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

"Wel pryd yn dod o BBC, ni'n ymddiried yno fo. Wedyn weithiau ni'n gweld pethau fel TikTok, so fel ni'n dweud, oedd e'n pethau'n Lloegr, dim Cymru, a'r pobol jyst yn cael yn mixed up rhwng y ddau. A wedyn byswn i'n gofod, byswn i'n chwilio pethau o fewn i fy hun i checio fo." – Benyw, 16 i 17 oed, Cefn Gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae camwybodaeth yn flaenllaw i'r bobl ifanc y siaradwyd â nhw fel rhan o'r ymchwil hwn ac yn rhywbeth maen nhw'n meddwl amdano'n ymwybodol pryd bynnag maen nhw'n dod ar draws newyddion, boed hynny ar gyfryngau cymdeithasol neu allfeydd cyfryngau traddodiadol. Er bod ymwybyddiaeth eang nad yw popeth maen nhw'n ei weld ar-lein yn real, mae yna hefyd ddiffyg ymddiriedaeth yn y cyfryngau prif ffrwd, a theimlad y gall cyfryngau cymdeithasol gynnig persbectif mwy gonest. Mae pobl ifanc yn teimlo bod eu cyfoedion yn cymryd gwybodaeth ar ei gwerth wyneb ac yn agored i newyddion ffug a phenawdau dramatig arddull abwyd clicio. Anaml y maen nhw'n gweld eu hunain fel rhai sydd yr un mor agored i niwed, er eu bod nhw'n nodi eu bod nhw'n cael y rhan fwyaf o'u gwybodaeth wleidyddol o'r un ffynonellau â'u cyfoedion.

"Rwy'n sylwi bod llawer o [FFYNHONNELL NEWYDDION A] yn dechrau ymddangos ar fy nhudalen 'For You' yn ddiweddar. [...] Gallaf weld propaganda ynddo weithiau..." – Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

"Dydw i ddim yn tueddu i ymddiried yn y newyddion, oherwydd gwn y gellir, mewn ffordd, prynu llawer o newyddion – a gwn hynny drwy wneud ymchwil. Felly, fel arfer, rwy'n darllen trawsgrifiadau, yn ffurfio fy marn fy hun, neu'n trafod pethau gyda'm cyfoedion i weld beth yw eu barn nhw am ddigwyddiadau. Rwy'n ceisio cael y farn fwyaf diduedd posib." – Gwryw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

"Dwi'n meddwl ei bod hi'n anoddach i genedlaethau nawr achos [...] dydych chi ddim wir yn cael newyddion lleol – gorsafoedd fel [FFYNHONNELL NEWYDDION B] a phethau felly – lle rydych chi'n cael fersiwn mwy manwl a chynhwysfawr o'r stori, yn hytrach na dim ond sgrolio ar eich ffôn am 20 eiliad." - Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

Mae pobl ifanc o'r farn y dylai pleidiau a chynrychiolwyr groesawu cyfryngau cymdeithasol fel sianel i gyfathrebu â'r etholwyr, yn enwedig pleidleiswyr iau. Credir hefyd fod gan hyn y potensial i wrthweithio gwybodaeth anghywir o ffynonellau answyddogol sydd eisoes yn defnyddio'r llwyfannau hyn.

"Rwy'n credu, os ydych chi'n mynd i ganiatáu i bobl 16 a 17 oed bleidleisio, mai cyfryngau cymdeithasol fydd y ffordd orau o'u hysbysu." - Benyw, 16 i 17, Dwyrain Cymru

5.1.3. Profiad ac effaith

Mae'r bobl ifanc y siaradwyd â hwy fel rhan o'r ymchwil hwn yn disgrifio'r broses o gofrestru i bleidleisio, yn gyffredinol, fel un syml. Yn yr un modd, mae'r agweddau ymarferol – megis gwybod ble i bleidleisio a beth i'w wneud ar y diwrnod – yn ymddangos yn eithaf hawdd. Nid yw hyn yn wir ym mhob achos; dywedodd un person ifanc sy'n byw mewn ardal wledig i'w cherdyn pleidleisio gyrraedd y diwrnod ar ôl yr etholiad, ac roedd un arall yn cael trafferth

dod o hyd i'r orsaf bleidleisio lle'r oedd wedi cofrestru, ar ôl symud i ffwrdd i'r brifysgol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf yn ystyried bod y camau hyn yn cyflwyno her.

“Pan gawsoch chi eich cerdyn pleidleisio, roedd yn nodi lleoliad i fynd iddo – yn fy achos i, fy hen ysgol, sydd tua dwy funud i lawr y ffordd. Felly, roedd hi’n hawdd iawn i mi ddarganfod ble i bleidleisio a sut i bleidleisio.” – Gwryw, 18 i 21, Gogledd Cymru

“Wnes i ddim cael [fy ngherdyn pleidleisio] yn y post, felly wnes i ddim pleidleisio yn y diwedd. Cyrhaeddodd tua diwrnod ar ôl [yr etholiad].” Benyw, 16 i 17 oed, ardaloedd gwledig Canol a Gorllewin Cymru

“Roedd yr etholiad hwn mor rhwystredig a dryslyd, achos mae fy rhieni’n byw yn Llantyglo, ond dwi’n meddwl i mi gofrestru i bleidleisio yng Nghaerdydd, ond rŵan dwi’n byw ym Mhonty ar gyfer y brifysgol [...] Felly roedd hi wir, wir yn ddryslyd, ac o’n i ddim yn gwybod ble gallwn i bleidleisio, na sut gallwn i bleidleisio, na phryd neu ble wnes i gofrestru i bleidleisio.” – Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

Y rhan anoddaf o ymwneud ag etholiadau yw penderfynu dros bwy i bleidleisio. Gall diffyg gwybodaeth am wleidyddiaeth, ynghyd â’r teimlad bod pleidleisio yn rhywbeth ‘o bwys mawr’, atal pobl ifanc rhag pleidleisio, oherwydd pryder y gallent bleidleisio dros y peth ‘anghywir’. Mae’r ymwybyddiaeth gref nad oes modd ymddiried ym mhob dim y maent yn ei ddarllen a’i glywed yn ei gwneud hi’n anoddach ffurfio barn; mae hynny’n golygu bod cam ychwanegol o wirio’r wybodaeth y maent yn dod ar ei thraws

“Er iddyn nhw ddweud wrthyf y gallwn i bleidleisio, doedd [fy rhieni] byth yn dda iawn am egluro’r peth i gyd. Felly, weithiau, doeddwn i ddim yn pleidleisio o gwbl – oherwydd roeddwn i’n meddwl, wel, os nad ydw i’n gwybod digon am y peth, gallai fy mhleidlais wneud mwy o niwed nag o les.” – Benyw, 18 i 21, Cefn Gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gall dod yn gymwys i bleidleisio wneud i wleidyddiaeth deimlo'n fwy perthnasol a phwysig. I'r rhai sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth, roedd darganfod bod ganddynt yr hawl i bleidleisio yn drobwynt amlwg; ar ôl hynny, dechreuasant roi sylw i'r hyn yr oeddent yn ei glywed am wleidyddiaeth. Mae rhai yn disgrifio teimlo balchder neu gyffro, yn ogystal â theimlo cyfrifoldeb i ddeall yr hyn yr oeddent yn pleidleisio o'i blaid.

“Rwy’n teimlo, ers i mi gael yr hawl i bleidleisio, fy mod wedi edrych llawer mwy ar [wleidyddiaeth]. Cyn cael yr hawl i bleidleisio, roeddwn i’n meddwl rhywbeth fel: ‘Does gen i ddim dweud yn y peth beth bynnag, felly pam mae angen i mi wybod amdano?’ Nawr, gan fy mod i’n gwybod bod gen i lais a’n bod i’n gallu mynegi fy marn, rwyf wedi dod â mwy o ddiddordeb mewn gwybod beth sy’n digwydd – oherwydd rwy’n gwybod fy mod i’n rhan ohono, neu’n gallu bod.” – Benyw, 16 i 17 oed, ardaloedd gwledig Canol a Gorllewin Cymru

“[Pan gefais yr hawl i bleidleisio, roeddwn i] yn hynod, hynod gyffrous. Roeddwn i’n teimlo y gallwn i ddod â newid, a cheisio helpu pobl yn y wlad hon.” – Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

Mae ymdeimlad cryf ymhlith pobl ifanc bod pleidleisio yn gyfrifoldeb mawr, ond mae lefelau hyder ac addysg wleidyddol yn pennu a yw hyn yn gymhelliant neu'n rhwystr i arfer yr hawl i bleidleisio. Lle mae hyder mewn gwybodaeth wleidyddol yn gyfyngedig, mae pobl ifanc yn petruso cyn arfer eu hawl i bleidleisio, gan deimlo y gallai canlyniadau gwneud y dewis 'anghywir' fod yn ddifrifol. I'r gwrthwyneb, mae'r rhai sydd â dealltwriaeth gliriach o sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio yn aml yn teimlo bod rhaid iddynt arfer eu hawl ddemocrataidd.

"Roedd rhan ohonof i ddim eisiau pleidleisio, achos doeddwn i ddim eisiau gwneud y penderfyniad anghywir. Doeddwn i ddim eisiau pleidleisio achos… dysgais y rhan fwyaf o'r hyn rwy'n ei wybod o fideos ar TikTok a YouTube. Hynny yw, doeddwn i ddim eisiau pleidleisio ar sail hynny. Roeddwn i'n teimlo nad oeddwn i'n deall y peth yn iawn." – Benyw, 16 i 17 oed, Cefn Gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru

"Dysgais mewn gwersi hanes am y suffragettes a'r ffaith bod menywod yn gallu pleidleisio, ac roeddwn i'n teimlo balchder – ein bod ni wedi cyrraedd cyn belled â hyn. A meddyliais, 'Dydw i ddim yn mynd i adael i hynny fynd yn wastraff; ymladdodd y menywod hyn er mwyn i mi gael yr hawl i bleidleisio'." – Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

5.1.4. Galluogi cyfranogiad ystyrlon

Mae cyfrifon y cyfranogwyr yn awgrymu bod cyfranogiad yn dod yn fwy ystyrlon pan fydd pobl ifanc yn gwybod bod etholiad yn digwydd, yn deall beth y gall eu pleidlais ei effeithio, yn gallu llywio'r broses, ac yn cael digon o wybodaeth ddibynadwy i ffurfio eu barn eu hunain. Nid yw'r amodau hyn bob amser yn amlygu eu hunain fel pecyn gan fod rhai cyfranogwyr wedi canfod bod pleidleisio ei hun yn syml ond eisiau gwell paratoad ar gyfer penderfynu dros bwy i bleidleisio. Roedd eraill â diddordeb mewn cymryd rhan ond yn methu (neu'n cael trafferth gyda) gam ymarferol.

Mae paratoi yn ymddangos yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei gyflwyno cyn i bobl ifanc ddod yn gymwys i bleidleisio am y tro cyntaf. Gall yr ysgol ddarparu man cychwyn cyffredin, yn enwedig i bobl ifanc nad ydynt yn trafod gwleidyddiaeth yn rheolaidd gartref. Roedd rhai cyfranogwyr yn cofio gwersi, etholiadau ysgol, neu gynulliadau a helpodd i wneud pleidleisio'n teimlo'n fwy cyfarwydd. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn ymddangos yn anwastad. Teimlai eraill nad oedd llawer o addysg i gefnogi Pleidleisiau yn 16 oed, neu'n cofio clywed am y newid pan ddigwyddodd ond heb gael eu hatgoffa pan ddaethant yn gymwys mewn gwirionedd. Felly, mae cyfranogwyr eisiau addysg amserol a chytbwys sy'n ymdrin â chofrestru, sut i bleidleisio, yr hyn y mae gwahanol bleidiau'n ei gynrychioli, a sut i asesu hawliadau gwleidyddol.

"Rwy'n teimlo bod rhaid i chi fod â rhywfaint o ddiddordeb yn y pwnc er mwyn pleidleisio. Dyna pam rwy'n credu y dylid ei ddysgu mwy yn yr ysgol, fel bod gennych well gwybodaeth amdano, gan ei fod yn rhywbeth o bwys mawr. Ni ddylai fod yn gyfrifoldeb unigolion yn unig i ddarganfod gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol." Gwryw, 16 i 17 oed, Gogledd Cymru

Mae canllawiau ymarferol clir yn helpu i droi gwybodaeth amwys am gymhwysedd yn hyder wrth ymgymryd â'r weithred o bleidleisio. Mae gwybodaeth bleidleisio yn gweithio'n dda pan mae'n dweud wrth bobl ifanc yn union ble i fynd a beth i'w ddisgwyl. Disgrifiodd rhai

cyfranogwyr gardiau pleidleisio neu lythyrau fel rhywbeth sy'n gwneud y broses yn syml, gyda'r weithred o bleidleisio ei hun yn aml yn teimlo'n syml ar ôl iddynt gyrraedd yr orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, roedd camau cynharach yn y broses yn llai clir i eraill. Nid oedd rhai wedi gwybod bod angen iddynt gofrestru, nid oeddent yn gwybod ble i gofrestru, neu dim ond ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben y sylweddolasant eu bod wedi bod yn gymwys. Mae angen i gefnogaeth ymarferol hefyd ystyried gwahanol amgylchiadau, gan gynnwys anghenion hygyrchedd, astudio i ffwrdd o gartref, symud cyfeiriad neu ansicrwydd ynghylch ble mae rhywun wedi'i gofrestru.

“Dwi’n meddwl bod gweithio allan ble a sut i bleidleisio – achos gall pobl eistedd yna a dweud, ‘O ie, dwi’n mynd i bleidleisio dros y blaid yma, bydd hyn yn wych’, ond efallai nad ydyn nhw’n gwybod ble i fynd na beth i’w wneud.” Gwryw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

“Doeddwn i ddim yn gwybod ble i bleidleisio o gwbl. Roeddwn i’n chwilio ar Google i weld ble i bleidleisio yn fy ardal leol, ac roedd llawer o wahanol leoedd yn dod i’r amlwg; felly es i i bob un ohonyn nhw nes i mi ddod o hyd i fy enw yn un ohonyn nhw. Roedd yn ddryslyd iawn. Pan bleidleisiais i am y tro cyntaf yn 2021, roedd hi’n hawdd: anfonon nhw lythyr, cofrestrais i bleidleisio, ac yna, ychydig wythnosau’n ddiweddarach, cawson ni lythyr yn dweud wrthym i fynd i le penodol a mynd â’r cerdyn hwnnw gyda ni. Felly aethon ni i’r lle hwnnw, mynd â’r cerdyn, a phleidleisio o fewn 10 munud.” Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

“O ran addysg hefyd – fel gorfod teithio i wledydd gwahanol yn y DU ar ei chyfer – gall pethau fod yn anodd iawn. Mae’n gwestiwn o: a oes rhaid i mi ail-gofrestru popeth, neu a oes rhaid i mi wneud yr ymdrech i deithio tair awr yn ôl adref dim ond i bleidleisio?” Benyw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

Mae cyfranogwyr yn gwerthfawrogi esboniadau o'r hyn y mae pleidiau'n ei gynnig a chyfleoedd i'w cymharu. Mae rhai'n disgrifio edrych ar faniffestos neu ddeunyddiau gan wahanol bleidiau fel ffyrdd pwysig o ffurfio eu safbwynt eu hunain. Fodd bynnag, mae sawl un eisiau esboniadau cryno a chytbwys yn lle hynny, yn enwedig y rhai sy'n dechrau gyda gwybodaeth gyfyngedig. Mae deall yr hyn y mae etholiad y Senedd yn ei benderfynu hefyd yn bwysig. Mae cyfranogwyr yn galw am esboniadau cliriach o bwerau'r Senedd a sut mae'r rhain yn wahanol i San Steffan, fel eu bod yn deall beth y mae eu pleidlais yn cael ei defnyddio i ddylanwadu arno.

“Dwi’n meddwl bod angen mwy yn yr ysgolion. Os oes cynrychiolwyr o bleidiau yn mynd i mewn – hyd yn oed os mai’r pleidiau ‘anghywir’ ydyn nhw – dylai mwy o wybodaeth fod ar gael i’r bobl ifanc yn yr ysgol, yn enwedig y rhai yn y blynyddoedd uwch sy’n astudio ar gyfer eu TGAU. Yn fy marn i, dylen nhw gael gwybodaeth am bob un blaid, gan ddechrau o oedran 15.” Gwryw, 18 i 21, Gogledd Cymru

“Dwi’n meddwl y byddai’n dda annog pobl i ddarllen maniffestos go iawn. Dwi ddim yn meddwl bod digon o anogaeth yn cael ei roi i wneud hynny; mae’r pleidiau hyn yn cyhoeddi ar-lein yr hyn maen nhw am ei wneud a sut maen nhw am ei wneud, er mwyn i bobl allu ei ddarllen. Ond yn aml, dydy pobl ddim eisiau gwneud yr ymdrech i’w ddarllen, ac yn hytrach

maen nhw’n dewis gwrando ar rywun arall yn siarad amdano – rhyw fath o ddiogi, falle.” Gwryw, 18 i 21, Cymoedd De Cymru

Gall sianeli cyfarwydd a sgyrsiau bob dydd agor y drws, ond mae angen iddynt adael lle ar gyfer barn bersonol. Mae cyfryngau cymdeithasol a theulu yn ffynonellau gwybodaeth cyffredin, ond mae cyfranogwyr yn teimlo bod prinder ffynonellau y gallant ddibynnu arnynt am wybodaeth ddiduedd neu wrthrychol. Yn benodol, maent yn chwilio am wybodaeth a fydd yn eu helpu i ffurfio eu barn eu hunain, yn hytrach na dweud wrthynt beth i'w feddwl.

“Rwy’n teimlo bod angen gwneud y cyfan mewn ffordd hollol ddiduedd, fel y gallwn ffurfio ein barn a’n safbwyntiau ein hunain, heb gael ein dylanwadu gan bobl eraill.” Benyw, 16 i 17, Canolbarth Cymru

5.1.5. Crynodeb o brofiadau cyfranogwyr ifanc

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gall ymestyn hawliau pleidleisio i bobl 16 a 17 oed annog mwy o ddiddordeb gwleidyddol a theimlad o gael llais, ond nid yw hyn o reidrwydd yn trosi'n gyfranogiad hyderus. Er bod y broses ymarferol o bleidleisio yn syml ar y cyfan, gall pobl ifanc fod yn brin o'r wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen i wneud dewis gwybodus. Mae addysg wleidyddol, ymgysylltu â theuluoedd a mynediad at wybodaeth ddibynadwy i gyd yn chwarae rhan bwysig, ond mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn anghyson. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhoi gwybodaeth a chyfleoedd clir a diduedd i bobl ifanc ddatblygu eu dealltwriaeth o wleidyddiaeth Cymru cyn iddynt ddod yn gymwys i bleidleisio, gan eu helpu i arfer eu hawliau newydd yn annibynnol ac yn hyderus.

5.2 Dinasyddion tramor cymwys

Mae'r adran hon yn archwilio profiadau gwladolion tramor sy'n gymwys i bleidleisio ac i sefyll etholiad yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar yr hawl i bleidleisio a'r hawl i sefyll etholiad i'r Senedd. Cyflwynir y canfyddiadau ar wahân ar gyfer dau grŵp: y rhai a gyfwelwyd yn bennaf am eu profiadau o bleidleisio, a'r rhai sy'n fwy gweithgar yn wleidyddol – grŵp y trafodwyd y mater o'r hawl i sefyll etholiad gyda hwy yn fanylach. Gwneir y gwahaniaeth hwn at ddibenion ymchwil, ac nid yw'n adlewyrchu unrhyw wahaniaeth rhwng y gofynion cymhwysedd a nodir yn y gyfraith.

5.2.1 Hawliau pleidleisio

5.2.1.1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae ymwybyddiaeth cyfranogwyr o'u hawliau pleidleisio yn anghyson, ac mae ymwybyddiaeth o'r diwygiadau eu hunain yn gyffredinol is. Mae rhai dinasyddion tramor yn gwybod y gallant bleidleisio yn etholiadau Cymru, yn aml ar ôl cofrestru yn dilyn llythyr cofrestru cyngor neu ffurflen aelwyd. Mae eraill yn llai clir ynghylch pa etholiadau y maent yn gymwys i gymryd rhan ynddynt, yn enwedig y gwahaniaeth rhwng etholiadau'r Senedd, etholiadau lleol ac etholiadau cyffredinol y DU. Mae hyn yn tynnu sylw at wahaniaeth rhwng gwybod bod ganddynt hawl i bleidleisio a deall pa etholiadau y mae'r hawl honno'n berthnasol iddynt.

“I mi, roedd hi’n eithaf hawdd. Doeddwn i ddim yn sylweddoli y gallwn i bleidleisio, a chefais lythyr yn y post yn dweud wrthyf i gofrestru i bleidleisio. Dyna ni, dyna’r cyfan. Ond dwi’n tybio, os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, neu os ydych chi’n cael trafferth siarad Saesneg, gallai hynny fod yn rhwystr; oherwydd os nad ydych chi’n deall beth mae’r llythyr yn ei ddweud, mae’n debyg na fyddech chi’n sylweddoli bod modd i chi bleidleisio” - Benyw, 31 i 45, Americanaidd, Gogledd Cymru

“Pan dwi’n cyrraedd y wlad hon am y tro cyntaf, y peth cyntaf dwi’n ei wneud yw cofrestru i bleidleisio yn yr etholiad nesaf. Ac yna rydych chi’n derbyn cerdyn pleidleisio, sy’n eich galluogi i fynd i bleidleisio mewn gorsaf benodol.” – Gwryw, 31 i 45, Hong Kong, Caerdydd

Nid yw bod yn gyfarwydd â’r hawl bresennol i bleidleisio o reidrwydd yn golygu bod unigolyn yn ymwybodol o'r diwygiad a gyflwynodd neu a newidiodd yr hawl honno. Nid yw nifer o'r cyfranogwyr yn cydnabod nac yn cofio bod ehangu'r hawl i bleidleisio yn ddiwygiad ar wahân; mae rhai yn ymwybodol o un elfen o'r diwygiadau, ond nid o elfennau eraill. Mae hyn yn awgrymu efallai bod cyfranogwyr yn gwybod bod ganddynt yr hawl i bleidleisio ar hyn o bryd, heb fod wedi dilyn – neu gofio – y newidiadau deddfwriaethol sy'n sail i'r hawl honno.

Mae cyfranogwyr yn fwy tebygol o gofio cyfathrebiadau ynglŷn â phleidleisio nag o gofio cyfathrebiadau ynglŷn â'r diwygiad ei hun. I rai, daw ymwybyddiaeth drwy brosesau arferol etholiad – fel derbyn llythyr cofrestru, cerdyn pleidleisio neu wybodaeth arall am bleidleisio – yn hytrach na thrwy eglurhad cofiadwy o'r diwygiad. Fodd bynnag, nid dyma'r unig ffyrdd y daw pobl yn ymwybodol o'r mater. Ar draws y sampl, roedd cyfranogwyr yn gyffredinol yn fwy tebygol o gofio nodiadau atgoffa ymarferol i bleidleisio nag o gofio gwybodaeth a oedd yn egluro sut neu pam roedd hawliau pleidleisio wedi newid.

“Dywedodd fy banc y gallai un ffordd o wella fy sgôr credyd fod trwy wneud cais am gerdyn credyd neu gofrestru ar gyfer etholiadau lleol. Ond doeddwn i ddim yn ymwybodol o gwbl bod modd i mi bleidleisio dros y Senedd.” - Gwryw, 31 i 45, Portiwgaleg, Gogledd Cymru

“Rwy’n cofio, flynyddoedd lawer yn ôl, fy mod yn derbyn llythyrau i bleidleisio, ond rwy’n credu bod hynny’n ymwneud ag etholiadau Senedd Ewrop. Felly roeddwn i’n gwybod bod gen i hawl i bleidleisio, ond doeddwn i ddim yn hollol siŵr ar gyfer beth.” Gwryw, 31 i 45, Rwmaniad, De-orllewin Cymru

Nid yw bod yn gyfarwydd â phleidleisio’n ymarferol yr un peth â deall beth yw pwrpas pleidlais yn y Senedd. Gall rhai cyfranogwyr lywio drwy’r broses gofrestru, defnyddio cardiau pleidleisio neu bleidleisio wrth barhau i ddisgrifio ansicrwydd ynghylch rôl y Senedd, pa feysydd polisi y mae’n gyfrifol amdanynt, neu sut mae ei phenderfyniadau’n cael eu gwneud. Mae eraill yn gliriach ynghylch eu cymhwysedd ar gyfer etholiadau’r Senedd, gan ddangos nad yw ansicrwydd yn cael ei rannu gan bawb. Ar gyfer y grŵp hwn, mae’r dystiolaeth yn tynnu sylw at ddau angen gwybodaeth ar wahân: eglurder ynghylch pa etholiadau y gall unigolyn bleidleisio ynddynt, ac esboniad cliriach o’r hyn y mae’r Senedd yn ei wneud a’r hyn y gall pleidleisio drosto ddylanwadu arno.

“Rydym yn pleidleisio yn y Senedd, ond mae angen i ni wybod sut mae’r Senedd yn gweithio, faint o aelodau sydd ynddi, sut maen nhw’n llunio polisïau, ac a yw’r mwyafrif yn

penderfynu, neu a oes angen cefnogaeth, dyweder, dwy ran o dair neu'r Senedd gyfan. Er enghraifft, pa faterion cyhoeddus sydd o dan awdurdodaeth y Senedd? Nid oes gennym syniad clir iawn cyn i ni bleidleisio." - Gwryw, 31 i 45, Hong Kong, Caerdydd

5.2.1.2. Safbwyntiau ymysg dinasyddion tramor ar ymestyn yr hawl i bleidleisio

Mae sawl cyfranogwr yn croesawu ymestyn hawliau pleidleisio pan gaiff hynny ei drafod, er bod y safbwyntiau ynghylch pwy ddylai fod yn gymwys yn amrywio. Yn aml, roedd y gefnogaeth yn seiliedig ar y syniad bod pobl sy'n byw yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan benderfyniadau a wneir yma ac felly y dylent gael dweud eu dweud. I rai, roedd cyfrannu drwy drethi hefyd yn rhan o'r ddadl hon. Fodd bynnag, nid oedd cefnogaeth i'r egwyddor eang bob amser yn golygu bod cyfranogwyr yn cytuno ar fanylion cymhwysedd. Cwestiynodd rhai a ddylai hawliau pleidleisio fod yn berthnasol ar unwaith, yn enwedig i bobl a oedd wedi cyrraedd yn fwy diweddar, tra bod eraill yn awgrymu y gallai cyfnod preswylio gofynnol fod yn fwy priodol.

"Rwy'n teimlo ei fod yn gwneud synnwyr i ddinesydd tramor, os ydyn nhw wir yn byw yng Nghymru. Oherwydd os ydych chi'n byw mewn lle penodol, byddai'r holl bolisïau yn berthnasol i chi. Ond wedyn, sut mae'n gwneud synnwyr? – efallai y gellid ei gyfrif fel hanner pleidlais, rhywbeth felly." Benyw, 31 i 45, Ffilipinaidd, De-orllewin Cymru

"Dydw i ddim yn gallu pleidleisio mewn etholiadau cenedlaethol fy hun – rhywbeth rydw i'n ei ddeall i raddau, gan nad ydw i'n ddinesydd o'r wlad hon, er fy mod i wedi byw yma gydol fy mywyd. Gallai newidiadau a gyflwynir gan rywun mewn grym effeithio arnaf. Ond o ran etholiadau lleol, rwy'n credu bod gen i gymaint o lais â neb arall yn y wlad hon; gan fy mod wedi byw yma gydol fy mywyd, bydd y newidiadau hynny – yn enwedig ar lefel leol – yn effeithio arnaf i gymaint ag y byddant yn effeithio ar unrhyw un arall." Gwryw, 18 i 21, Ffiniad, ardaloedd gwledig Canol a Gorllewin Cymru

"Er enghraifft, bu dau achos yn ystod y blynyddoedd diwethaf lle es i i bleidleisio; un tro, doeddwn i ddim yn gallu pleidleisio gan nad oeddwn i'n gymwys – rhywbeth roeddwn i'n ei ystyried yn deg. Yr ail dro, roeddwn i'n gallu pleidleisio. Roeddwn i braidd yn meddwl, 'O, dwi ddim yn siŵr a ddylwn i fod wedi gallu pleidleisio mewn gwirionedd,' oherwydd, yn dechnegol, dim ond ers 2020 rydw i wedi bod yma." Benyw, 31 i 45, Americanaidd, Gogledd Cymru

Mae rhai cyfranogwyr yn teimlo bod yr hawl i bleidleisio wedi cyfrannu at ymdeimlad eu bod yn cael eu cydnabod fel rhan o gymdeithas Cymru, ond nid oedd yr effaith hon ar berthyn yn unffurf. Yn aml, disgrifiodd cyfranogwyr eu hymdeimlad o berthyn drwy berthnasoedd sefydledig, teulu, gwaith a bywyd bob dydd yng Nghymru, yn hytrach na phriodoli hyn yn unig i ymestyn hawliau pleidleisio. I rai, roedd yr hawl i bleidleisio yn cadarnhau cysylltiad presennol â Chymru ac yn gwneud iddynt deimlo'n fwy cydnabyddedig fel rhan o gymdeithas Cymru. I eraill, roedd yn ymddangos ei fod yn cryfhau eu hymdeimlad o gael llais, cyfrifoldeb neu barodrwydd i siarad. Fodd bynnag, dywedodd rhai cyfranogwyr nad oedd y newid wedi effeithio ar sut roeddent yn teimlo am fyw yng Nghymru. Felly mae effaith y diwygiad yn amrywio o gadarnhau cysylltiad presennol i greu ymdeimlad mwy gweithredol o lais neu berthyn.

“Ac rwy’n tybio, o ganlyniad – gan fy mod i’n teimlo ymdeimlad cryfach o berthyn – fy mod wedi bod yn fwy parod i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb, lleisio fy marn a’i rhannu. Er enghraifft, cysylltais â’r cyngor ynglŷn â’r awgrym hwn ar gyfer gwella traffig” - Dyn, 46 i 60, Eidalaidd, Cymoedd De Cymru

“Ie, mae hyn yn fath o gydnabyddiaeth ein bod ni hefyd yn rhan o Gymru; mae’n lefel arall yn unig.” - Gwryw, 46 i 60, Latfiaidd, De-orllewin Cymru

Nid yw cael yr hawl i bleidleisio, ynddo'i hun, yn datrys cwestiynau cynrychiolaeth wleidyddol. Mae rhai cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r egwyddor o allu cymryd rhan ond yn dal i gwestiynu a oedd y dewisiadau gwleidyddol sydd ar gael yn cynrychioli eu blaenoriaethau neu eu profiadau. I'r cyfranogwyr hyn, nid y cwestiwn a oedd ganddynt yr hawl ffurfiol i bleidleisio yn unig yw'r rhwystr, ond a oedd pleidleisio'n teimlo'n ystyrlon yng nghyd-destun y pleidiau, yr ymgeiswyr neu'r opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae nifer fach hefyd yn gweld potensial i hawliau ymgeisyddiaeth ddod â gwahanol safbwyntiau i wleidyddiaeth Cymru, ond dylid deall hyn fel budd posibl a nodwyd gan rai cyfranogwyr, yn hytrach nag fel blaenoriaeth a nodwyd yn eang ar draws y grŵp.

“Pan edrychais ar yr hyn oedd ar gael, doeddwn i ddim wir yn gallu gweld rhywbeth a allai fy nghynrychioli i. Felly, y rheswm pennaf dros beidio â phleidleisio oedd hynny; doeddwn i ddim yn teimlo fy mod yn cael fy nghynrychioli, ac ni fyddwn yn pleidleisio dros rywbeth nad wyf yn credu ynddo – yn hytrach na chymryd yr amser i edrych a holi a oedd gen i’r hawl i bleidleisio ai peidio.” - Gwryw, 31 i 45, Rwmaniad, De-orllewin Cymru

“Mae pobl efallai’n teimlo eu bod yn fwy rhan o’r pethau hynny. Ac felly, efallai y bydd rhywun yn penderfynu – os oes etholiad ar y gweill – y bydd rhywun yn dweud, ‘Wel, iawn, pam lai? Hoffwn i fod yn Aelod Seneddol.’” – Gwryw, 46 i 60, Latfiaidd, De-orllewin Cymru

5.2.1.3. Profiad ac effaith

I ddinasyddion tramor cymwys, nid yw rhwystrau i gyfranogiad yn gyfyngedig i gymhwysedd cyfreithiol. Mae sawl cyfranogwr yn disgrifio bylchau yn eu dealltwriaeth o'r Senedd, llywodraethiant Cymru neu'r dewisiadau sydd ar gael mewn etholiad, heb nodi statws dinesyddiaeth dramor ynddoi’i hun fel yr achos uniongyrchol. Fodd bynnag, ni ddylid trin y materion hyn fel rhai cwbl ar wahân i brofiadau’r cyfranogwyr fel dinasyddion tramor. I rai, mae dod o wlad arall yn golygu llywio sefydliadau anghyfarwydd, systemau pleidiau a rheolau etholiadol, a all wneud i gyfranogiad deimlo'n fwy cymhleth. Felly mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at yr angen am esboniadau cliriach am ddemocratiaeth Cymru, ochr yn ochr â gwybodaeth wedi'i theilwra ar gyfer pobl sy'n dod ati o gyd-destun cenedlaethol gwahanol.

“Roeddwn i’n deall bod gennym ni Geidwadwyr a Rhyddfrydwyr. Neu beth bynnag yw eu henwau. Roeddwn i’n gwybod bod peth o’r fath yn bodoli, a’u bod nhw fel dau sbectrwm gwahanol, ond doeddwn i ddim wir yn deall y manylion – y ffaith y gallai canran o’r pleidleisiau bennu canran o’r seddi yn y Senedd, rhywbeth felly.” - Benyw, 31 i 45, Americanaidd, Gogledd Cymru

“Ac er enghraifft, wyddoch chi, rydw i’n fewnfudwr, felly dwi ddim hyd yn oed yn gwybod pa un sy’n fwy agored i fewnfudwyr. Felly ie, mae angen ychydig o ymchwil, neu yn fy achos i, trafod gyda fy ngwraig.” - Gwryw, 46 i 60, Eidalaidd, Cymoedd De Cymru

Mae rhai rhwystrau’n gysylltiedig yn fwy uniongyrchol â llywio cymhwysedd ar draws gwahanol etholiadau. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae disgrifiadau’r cyfranogwyr yn awgrymu nad yw bob amser yn glir ym mha etholiadau y gall dinasyddion tramor gymryd rhan. Roedd rhai’n gwybod y gallent bleidleisio mewn etholiadau lleol ond nid oeddent wedi sylweddoli bod hyn hefyd yn berthnasol i etholiadau’r Senedd. Maent yn teimlo bod angen esboniad cliriach ynghylch pa etholiadau y mae eu hawliau pleidleisio’n berthnasol iddynt ac ym mha etholiadau na allant bleidleisio ynddynt. I’r rhan fwyaf, mae’r gwahanol haenau o lywodraeth leol a chenedlaethol yn y DU yn achosi dryswch. Mae’r rhain yn gwestiynau am yr etholfraint ei hun, yn hytrach nag am ddealltwriaeth wleidyddol ehangach neu’r broses pleidleisio.

“Doeddwn i ddim yn ymwybodol yn llawn o’r ffaith bod modd i mi bleidleisio ar gyfer y Senedd. Roeddwn i’n gwybod y gallwn bleidleisio’n lleol, ond nid ar lefel uwch.” - Gwryw, 31 i 45, Portiwgaleg, Gogledd Cymru

Mae profiadau o gofrestru a phleidleisio yn amrywio, gyda chamau ymarferol yn syml i rai ond yn fwy heriol i eraill. Mae rhai cyfranogwyr yn disgrifio'r broses fel un gymharol hawdd ar ôl iddynt dderbyn llythyr neu anogaeth i gofrestru. Mae eraill yn disgrifio methu dyddiadau cau, ansicrwydd neu gamau nad ydynt wedi’u datrys. Mae rhai yn nodi y gall rhwystrau iaith fod yn her i ddinasyddion tramor eraill, yn hytrach na’u bod wedi profi hynny'n uniongyrchol. Mae hyn yn awgrymu y gall prosesau ymarferol weithio'n dda pan fo pobl yn derbyn ac yn deall yr anogaeth gywir, ond yn dal i adael lle i ansicrwydd lle mae cymhwysedd, amseru neu gyfathrebu yn llai clir.

“Roeddwn i’n ystyried ceisio pleidleisio, ond roedd hi’n rhy hwyr, yn fy marn i. Wel, roedd y dyddiad cau ar gyfer cofrestru wedi mynd heibio... ac roeddwn i hefyd yn brysur iawn gyda gwaith ar y pryd.” - Benyw, 31 i 45, Ffilipinaidd, De-orllewin Cymru

